Dogfen ir Cyhoedd

# Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Gwener, 31 Ionawr 2020 at 10.30 am

yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

This page is intentionally left blank

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 28 Ionawr 2019 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

5. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 16)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

6. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Tudalennau 17 - 20)

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

   **a)** Diwygio Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd (Tud 21 - 26)

   **b)** Praesept a Threth y Cyngor 2019/20 (Tudalennau 27 - 60)

   **c)** Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru - Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2023-24 (Tudalennau 61 - 93)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 94 - 96)

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 @ 10.00 am - cynhelir y cyfarfod os caiff y praesept ei wahardd gan Banel yr Heddlu a Throsedd

Dydd Llun, 25 Mawrth 2019 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Pat Astbury (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Dana Davies, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, Neville Phillips a Dylan Rees |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Mathew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Yn Bresennol: | Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Rhian Rees Roberts (OPCC) |
| Hefyd yn bresennol: | Uwcharolygydd Nick Evan a’r Prif Uwch-Arolygydd Alex Goss |

38. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Peter Read (Cyngor Gwynedd) a Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

39. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Domestig Glannau Dyfrdwy, sy’n manteisio o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

40. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Talodd yr Is-Gadeirydd deyrnged i Mr. Ian Roberts, cyn gynghorydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chyn aelod o Banel Heddlu a Throsedd, a fu farw'n ddiweddar.

Gofynnodd y panel fod llythyr cydymdeimlad yn cael ei anfon i deulu Mr. Roberts.

41. **CYFLWYNIAD AR ARGYMHELLION Y RHAGLEN GWELLA GWEITHREDU (Y PRIF UWCHAROLYGYDD GOSS A'R UWCHAROLYGYDD EVANS)**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd gyflwyniad ar gynigion o'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol (OID) gan y Prif Uwch-Arolygydd Alex Goss a'r Uwcharolygydd Nick Evans.

Nod yr OID yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad wrth gadw pobl yn ddiogel a thargedu trosedd sy'n flaenoriaeth drwy ddarpariaeth gydlynol o'r ffrydiau gwaith gweithredol canlynol:

- Adolygiad Ymchwiliol – Yr Adran Ymchwilio i Droseddau (CID)
- Adolygiad Rhingylliaid a Chwnstabliaid Patrôl
- Adolygiad Plismona Cymdogaeth
- Adolygiad y Ddalfa
- Adolygiad Rheoli Digwyddiad
- Arbedion Gofynnol: Dros £3m

Roedd y cyflwyniad yn amlygu'r materion canlynol:

- Newid wyneb y galw
- Methodoleg ar gyfer cyflawni'r OID
- Yr Uned Galw a Gallu a oedd yn edrych ar y math o fodelu adnoddau
- Adolygiad Rheoli Achosion
- Adolygiad Rhingylliaid a Chwnstabliaid Patrôl
    - Cynigion i newid patrymau sifft o batrwm sifft 5 tîm i batrwm sifft 4 tîm, gyda throsglwyddiad sy'n gorgyffwrdd er mwyn ateb y galw.
- Adolygiad Plismona Cymdogaeth – model arfaethedig:
    - Timoedd Plismona Cymdogaeth llai, wedi'u ffocysu, yn canolbwyntio ar amcanion yr Heddlu
    - Gwell hyfforddiant mewn datrys problemau ac ymyrraeth gynnar – peilot lle bydd 28 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn derbyn cwrs ymchwilwyr 8 wythnos er mwyn darparu'r gallu ar gyfer ymchwilio i drosedd/bregusrwydd.
    - Goruchwyliaeth gynaliadwy ymroddedig.
    - Canllawiau Plismona Cymdogaeth wedi'i sefydlu gan y Coleg Plismona a phroffiliau rôl clir wedi eu cymeradwyo gan y Coleg Plismona.
    - Patrymau sifft i ganiatáu datrys problemau, gweithio mewn partneriaeth, cefnogi patrôl a sicrhau bod digon yn gweithio dros yr oriau brig a nodir.
- Adolygiad Ymchwiliol – darparu model gweithredu sy'n sicrhau effeithlonrwydd dull adnabod ac ymateb yr Heddlu i fregusrwydd, sy'n cynnwys dyraniad priodol o ymchwiliadau i'r rhai gyda'r sgiliau a'r gallu i ddelio â hwy.
    - Proses brysbennu trosedd newydd.

- Cyflwyno Llwybr TG integredig i dywys swyddogion i gwblhau ffurflenni priodol, er mwyn lleihau gwastraff a sicrhau mai dim ond atgyfeiriadau effeithiol sy’n cael eu gwneud.
- Cadernid Ditectif: Angen cynnydd o 30 staff y CID, sy’n gyfystyr â chynnydd o 18 ditectif a 12 Staff Cymorth.
- Peilot Ymchwilwyr Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

* Adolygiad y Ddalfa
  - Mynd i’r afael â goramser a phwysau.
  - Galw v adnoddau.
  - Datrysiad Arfaethedig: Corffori gwaith gwneud penderfyniadau’r heddlu yn Uned y Ddalfa; cynyddu i 36 Rhingyll mewn rolau hyblyg i ymdopi â galw brig.
  - Patrwm 4 Tîm.

O ganlyniad i’r cynigion uchod, golyga hyn newidiadau i’r adnoddau fel a ganlyn:

* Uwchsgilio cohort o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gefnogi ymchwiliadau.
* 18 Ditectif ychwanegol.
* 6 Cwnstabl Patrôl ychwanegol
* 6 Rhingyll Patrôl ychwanegol.
* 8 Cwnstabl NPT yn llai.
* Gostyngiad mewn swyddogaeth PDM swyddfa gefn.
* Gostyngiad mewn rheolaeth achosion swyddfa gefn.
* Cynnydd o 1 Rhingyll y Ddalfa a gostyngiad o 4 Swyddog y Ddalfa (CDOs).

Hysbyswyd y Panel y byddai’r cynigion yn arwain at arbedion ariannol ac osgoi costau o tua £4.014m.

Diolchodd yr aelodau i’r Swyddogion am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth a thrafodwyd y canlynol:

* Cynnydd yn y nifer o Dditectifs:
  - Cadarnhaodd y Swyddogion y byddent yn hysbysebu swyddi gwag, fodd bynnag roedd yn debygol y byddai’r mwyafrif o staff yn dod o fewn yr Heddlu.
* Patrymau shifft yn unioni â'r galw.
* Newidiadau i’r NPT ac uwchsgilio 28 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gefnogi swyddogaeth ymchwiliol:
  - Dywedodd y swyddogion oherwydd y newid mewn trosedd, mae'n rhaid i'r Heddlu ymateb i'r risg, yn arbennig o ran trosedd seiber a mathau o drosedd sy’n ymddangos, megis caethwasiaeth fodern, grwpiau troseddau cyfundrefnol a llinellau sirol.
  - Yn y gorffennol byddai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gwneud swyddogaethau eraill, fodd bynnag yn dilyn adolygiadau o'r Swyddogaeth Patrôl, ni ddylai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael eu symud o’u rôl bresennol. Byddai adolygiad o’r NPT yn darparu ar gyfer tîm mwy effeithlon sy’n canolbwyntio ar ymateb i’r galw

- Byddai'r Prif Gwnstabl yn gallu dynodi mwy o bwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel bo angen.
- Defnyddio staff sifil i gyflawni dyletswyddau ymchwiliol:
  - Dywedodd y swyddogion bod cynigion i ddarparu staff sifil gyda chymhwyster cyfystyr â Ditectifs (PIP2).

Dywedodd y swyddogion y byddai cyfnod o 3 mis i ymgynghori gyda staff ar y cynigion.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r cyflwyniad.**

42. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 a 24 Medi 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**
**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 a 24 Medi 2018.**

43. **NEWYDD**

Darparwyd adborth ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018 fel a ganlyn:

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018:

Cofnod 29: Cafodd y Panel wybod bod Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cynnig £400k a £600k yn ôl eu trefn i'r Heddlu yng Nghymru i dalu am y costau o ran yr Ardoll Brentisiaethau. Tra bod yr Ardoll yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru, nid yw plismona wedi ei ddatganoli yng Nghymru, felly mae'r Heddlu yng Nghymru o dan anfantais o'i gymharu â Heddlu Lloegr, gan nad ydynt yn gallu cael mynediad at yr Ardoll i ddarparu hyfforddiant yr heddlu.

Cofnod 32 (c): Yn dilyn ystadegau anghywir yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, cadarnhaodd y Comisiynydd bod y ffigyrau trosedd eraill a ryddhawyd gan Heddlu Gogledd Cymru i'r Swyddfa Gartref yn gywir.

Cofnod 32 (d): Roedd gobaith y byddai'r Comisiynydd yn gallu dosbarthu adroddiad i Aelodau'r Panel ar gyfanswm yr asedau a atafaelwyd cyn y cyfarfod nesaf.

Cofnod 35 (b): Bydd Mr. Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol Panel yr Heddlu a Throsedd yn siarad gyda'r Awdurdod Cynnal er mwyn dyfeisio Polisi Aflonyddwch addas.

44. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 1 Medi 2018 i 9 Tachwedd 2018 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd hefyd at y penderfyniadau canlynol:

Cerrig Camu a RASASC (13/09/18): Gwnaed cais bod gofyniad ar gyfer dadansoddiad dewisiadau ar gyfer cydweithio a chynaliadwyedd gwell gan RASASC a Cerrig Camu yn cael ei gyhoeddi (os yw'n bosib).

Cronfa Ymyrraeth Gynnar: Tra bod y Comisiynydd wedi gwneud £100k ar gael i sefydliadau i ariannu prosiectau ymyrraeth gynnar ar gyfer y 3 blynedd nesaf i leihau trosedd ac anrhefn, mae'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar yn dal yn ei ddyddiau cynnar a bydd rhestr o'r prosiectau yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Cadarnhaodd y Comisiynydd bod y cynnig am gyllid a gafodd ei wrthod gan sefydliad yn cael ei ailddyrannu.

Dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod y darparwyr gwasanaeth yn croesawu'r ymrwymiad 3 blynedd er mwyn gallu cynllunio ar gyfer yr hirdymor.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r adroddiad.**

45. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Dim.

46. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn;

<u>Cefnogwr yn erbyn Caethwasiaeth Fodern</u>

Hysbysodd Pat Astbury (Is-Gadeirydd) y Panel ei bod wedi mynychu Cynhadledd addysgiadol ar Gaethwasiaeth Fodern.

<u>Cefnogwr yn erbyn Cam-Drin Domestig</u>

Hysbysodd y Cynghorydd Chris Bithell y Panel ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Fwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru.

<u>Cefnogwr Cyllid</u>

Hysbysodd y Cynghorydd Dana Davies y Panel am y pryderon yn gysylltiedig â phwysau cyllideb, yn arbennig o ran y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn gweithwyr o ran cynllun pensiwn yr heddlu. Dywedodd y Cynghorydd Davies ei bod wedi codi'r pryderon hyn gyda Chadeirydd ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ysgrifennodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd at Aelodau Cynulliad ac Aelodau o'r Senedd i'w gwahodd i sesiwn friffio ar 4 Ionawr 2019; roedd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Aelod sy'n Gefnogwr hefyd wedi cael gwahoddiad i fynychu.

47. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddiweddariad i'r Panel ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst i 1 Tachwedd 2018.

Amlygodd y Comisiynydd y meysydd canlynol o'r adroddiad:

Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig

- Mae gwelliannau wedi bod ymhob maes o'r flaenoriaeth hon; roedd cynnydd yn y troseddau domestig a gofnodwyd, a groesawyd gan y Panel gan fod cydnabyddiaeth na chofnodir y math hwn o drosedd yn ddigon aml.
- Erbyn dechrau mis Tachwedd 2018 roedd gostyngiad bychan yn y rhai sy'n dioddef fwy nac un waith (gostyngiad o 0.5%).
- Roedd y tîm Hyder a Bodlonrwydd Dioddefwyr Trais Domestig wedi eu penodi a disgwylir iddynt ddechrau gweithio'n fuan.

Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl

- Cynhaliwyd dwy gynhadledd i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern.
- 

Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

- Mae'r berthynas rhwng Camfanteisio Troseddol ar Blant, ymddygiad troseddol Llinellau Sirol, a Chaethwasiaeth Fodern yn dod yn fwyfwy amlwg.
- Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r ganran uchaf o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau treisio o holl luoedd Cymru a Lloegr rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2018. Credir fod y perfformiad cryf hwn yn ganlyniad i'r ffaith fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal uned benodol ar gyfer treisio, bod â pherthynas waith da gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, a bod yn weithredol, wrth weithio ar y cyd gyda phartneriaid.
- Roedd gostyngiad mewn cudd-wybodaeth o ran cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn ystod Hydref 2018, a all fod o ganlyniad i golli'r gwasanaeth cyfweliadau dychwelyd adref yr arferai Barnardos ei ddarparu. Roedd Protocol ar y cyd i bob Awdurdod Lleol gadw ato yn cael ei lunio gyda'r bwriad o sefydlu cytundeb rhanbarthol mewn perthynas â'r gwasanaeth dychwelyd adref, gyda darpariaeth leol.

Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol

- Ar hyn o bryd mae 34 o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru.
- Hysbysodd y Comisiynydd y Panel am Ymgyrch ‘Trapped’, a lansiwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o droseddwyr sy'n meithrin perthynas amhriodol ac yn ecsbloetio plant ac oedolion diamddiffyn i gyflawni troseddau ar eu rhan. Bydd dolenni i’r fideo yn cael eu rhannu â’r Panel.
- Roedd cynhadledd diweddar gyda’r Trydydd Sector wedi amlygu pwysigrwydd o fynd i’r afael â throsedd Llinellau Sirol; bydd adborth o’r gynhadledd yn cael ei ddarparu mewn adroddiad diweddaru gan y Comisiynydd yn y dyfodol.

Wrth graffu ar yr adroddiad, trafododd y Panel y canlynol:

- Cynnydd yn y troseddau domestig a gofnodwyd – a oedd y drosedd yn cynyddu?
  - Dywedodd y Comisiynydd y byddai’r ystadegau hirdymor yn dangos sut mae’r Heddlu yn gwneud gwahaniaeth ac yn diogelu bywydau.
- Allan o’r Orsaf - o fis Medi 2018, dangoswyd bod Swyddogion a Swyddogion Cymorth Cymunedol allan o’r orsaf am 41.3% o’r oriau oedd ar gael; gofynnodd y Panel os dylid treulio mwy o amser allan o'r orsaf er mwyn sicrhau gwelededd.
  - Cyfeiriodd y Comisiynydd at y cynigion o fewn y Rhaglen Gwelliant Gweithredol, a fyddai'n arwain at welliannau mewn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu.
- Y rhesymau dros golli’r gwasanaeth cyfweliadau dychwelyd adref oedd yn cael ei ddarparu gan Barnados.
  - Roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan Gronfa Arloesi'r Heddlu yn flaenorol, ond gan nad oedd y partneriaid yn gallu cytuno ar drefniadau ariannu, cafodd y gwasanaeth ei dynnu'n ôl.
- Er ei bod yn galonogol gweld cynnydd yn y nifer o achosion llys cam-drin domestig, gofynnodd y Panel am y rhesymau bod achosion llys yn methu.
  - Dywedodd y Comisiynydd y gallai hyn fod oherwydd safon y dystiolaeth; fodd bynnag dylai'r dystiolaeth o Fideo a wisgir ar y corff, helpu materion.
- Canolfannau lloches i ddynion yn Sir y Fflint
- Cyfatebiaeth wedi ei gyfeirio at yr Adran Safonau Proffesiynol.
  - Sicrhaodd Prif Weithredwr y Swyddfa’r Comisiynydd y Panel nad oedd hyn yn achosi pryder.
- Cysylltu â’r Heddlu trwy ddulliau eraill, megis Sgwrsio Byw.

Cyfeiriwyd hefyd at y penderfyniad i dynnu cronfa’r Heddlu ar gyfer cydlynydd llawn amser ar gyfer Cynllun Beicio Diogel Gogledd Cymru. Awgrymodd y Comisiynydd i'r Panel gysylltu â'r Uwcharolygydd Jane Banham i drafod y rhesymau dros y penderfyniad.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i Swyddfa’r Comisiynydd am yr eirfa termau, a ofynnodd amdano yn y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD-**

(a) **Nodi gwybodaeth ddiweddaraf Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

(b) **Rhannu'r dolenni i fideo'r Ymgyrch 'Trapped' i'r Panel Heddlu a Throsedd.**

(c) **Bod y Panel yn cysylltu â'r Uwcharolygydd Jane Banham i drafod y rhesymau am dynnu cyllid yn ôl ar gyfer cydlynydd llawn amser ar gyfer Cynllun Feics Gogledd Cymru.**

48. **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18 (DRAFFT)**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18.

Yr adroddiad hwn oedd ail adroddiad blynyddol y Comisiynydd ac roedd yn darparu gwybodaeth ar flaenoriaethau plismona a osodwyd gan y Comisiynydd.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg a chyflawniadau allweddol y flwyddyn ddiwethaf, gwybodaeth am yr heriau ariannol a gweledigaeth Mr Jones am ddyfodol y Comisiynydd.

Diolchodd y Comisiynydd i'r Prif Weithredwr a staff Swyddfa'r Comisiynydd am y gwaith a gyflawnwyd wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Cydnabu'r Panel gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf, yn benodol y cipolwg i 'Ddiwrnod ym mywyd Heddlu Gogledd Cymru', a oedd yn crynhoi'r gofynion a wyneba'r Heddlu yn ddyddiol. O ran y nifer o alwadau a dderbynnir mewn un diwrnod, gofynnodd y Panel sawl galwad oedd yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Cytunodd y Comisiynydd i gynnwys y wybodaeth hon o fewn ei adroddiad

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2017/18, yn ddibynnol ar gynnwys y wybodaeth, yn ymwneud â'r nifer o alwadau oedd yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl, os yn bosibl.**

49. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2018/19 (AR 30 MEDI 2018)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad i'r Panel ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 30 Medi 2018.

Cafodd y Panel wybod, oherwydd y cynnydd mewn prisiau nwy a thrydan, ac yn ddibynnol ar dywydd y gaeaf, gall hyn arwain at orwariant o £300k; fodd bynnag byddai hyn yn cael ei dalu gan y tanwariant net.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid wrth y Panel hefyd o bryderon yn ymwneud â chynyddu cyfraniadau pensiwn cyflogwyr o ran cynllun

pensiwn yr heddlu, a oedd wedi codi oherwydd lleihad yn y cyfraddau disgownt; mae effeithiau'r newidiadau i'r gyfradd ddisgownt yn disgyn ar y cyflogwr.

Pwysleisiwyd bod materion yn dal i fod yn ansicr, ac na fyddai mwy o wybodaeth ar gael nes ar ôl cyhoeddi'r setliad dros dro. Yn dibynnu ar gyhoeddiad y setliad dros dro, efallai bydd angen i'r Comisiynydd weithredu'n lleol er mwyn lleddfu effeithiau'r newid.

Er bod y Prif Swyddog Cyllid yn ymwybodol y byddai cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn yn debygol, nid oedd goblygiadau'r cynnydd yn gwbl hysbys. Yn flaenorol, cynyddodd y gyfradd ddisgownt a dylai cyfraniadau cyflogwyr fod wedi eu lleihau yn 2015, fodd bynnag gwnaed penderfyniad gan y Llywodraeth Ganolog i gadw cyfraniadau cyflogwyr yr un lefel a gytunwyd yn flaenorol. Felly, roedd yn rhesymol tybio y byddai'r trefniadau yn gweithio'r ffordd arall pe byddai cyfraddau disgownt yn disgyn. Yn ail, gwnaed y cyhoeddiad ym mis Medi, ac roedd y symiau ynghlwm yn arwyddocaol.

Byddai Trysorlys EM yn disgwyl derbyn £417m yn ychwanegol bob blwyddyn o'r sector blismona o ganlyniad i'r newidiadau hyn; cynigwyd cymorth ar gyfer 2019/20 o £252m, gan adael £165m i'r Comisiynwyr ddod o hyd iddo'r flwyddyn nesaf. Os na fyddai unrhyw gymorth arall yn dod, yn lleol golyga hyn oddeutu £1.982m yn 2019/20 (cyfwerth â 50 o swyddogion), yn codi i £3.304m i £5.286m y flwyddyn wedi hynny (cyfwerth â 133 o swyddogion). Byddai'r ffigyrau gwirioneddol yn dibynnu ar y setliad, ond roedd y mynegiannau dechreuol yn dynodi y byddai'r grant a dderbynia'r Comisiynydd yn ariannol wastad o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol. Ar gyfer 2020/21 a thu hwnt, bydd y grant cyffredinol ar gael i'r Comisiynwyr yn cael ei effeithio gan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant; a bydd dyraniad y grant yn cael ei effeithio gan adolygiad fformiwla, a oedd yn cael ei drefnu i ddilyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Pe byddai'r setliad grant yn ariannol wastad, gyda symiau mor fawr ynghlwm (£5.286m oedd yn gyfwerth â 7.5% o doriad i'r grant) mae'n amlwg bod angen ystyried camau gweithredu adferol ar unwaith. Wrth anwybyddu'r sefyllfa a dibynnu ar gronfeydd wrth gefn, byddai hyn yn arwain at gyllideb anghyfreithiol o fewn tair blynedd, felly byddai'n rhaid i'r Comisiynydd fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r Heddlu bob amser yn chwilio am ffyrdd o arbed arian, ond gyda chwyddiant oddeutu 2.4% mae grant ariannol wastad yn cynrychioli toriad tymor real. Yn ogystal â hynny, mae'r galw am blismona yn newid yn gyson, a chafodd hyn ei amlygu yng nghyflwyniad OIP fel yr amlinellwyd yng Nghofnod 41 uchod. Ar ôl nodi arbedion arwyddocaol o dros £31m yn y gyllideb flynyddol ers 2010, roedd hi'n gynyddol anodd nodi arbedion effeithlonrwydd. Er mwyn cadw â chwyddiant, bydd angen cynyddu treth y cyngor oddeutu 4%, ond nid yw hynny'n ystyried unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer pensiynau'r heddlu.

Gan fod bob arbedion a nodwyd wedi ei gysylltu ag elfen o dwf, a bod cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn brin; ac am nad yw'r cronfeydd wrth gefn yn ddigon i'w ariannu, hyd yn oed yn y tymor byr i'r tymor canolig, bydd yn rhaid i'r Comisiynydd wneud penderfyniad o wneud

toriadau, neu gynyddu treth y cyngor er mwyn osgoi gwneud toriadau. Er y byddai rhewi recriwtio am 1 ½ i 2 flynedd yn addasu'r nifer o staff a swyddogion i lefel fforddiadwy, bydd y goblygiadau'n arwyddocaol.

Oherwydd effeithiau difrifol o rewi recriwtio, a'r gofyniad cyfreithiol i gyflwyno cyllideb gytbwys, yr unig weithred resymegol, yn anffodus, fyddai cynyddu treth y cyngor. Fodd bynnag, roedd gwaith pellach yn cael ei gyflawni i geisio gwella'r sefyllfa ac roedd y Comisiynydd wedi ysgrifennu i ACau ac ASau i egluro'r sefyllfa. Roedd yr NPCC hefyd yn bwriadu cymryd camau gweithredu cyfreithiol yn erbyn Trysorlys EM.

Roedd trafodaethau yn y Senedd ar 14 Tachwedd 2018, ac roedd adroddiadau y byddai'r Paneli yn derbyn arian i gydbwyso'r cyllidebau heb orfod gwneud toriadau sylweddol, fodd bynnag mae'r sefyllfa'n newidiol ar hyn o bryd, ac ni fyddwn yn gwybod yr effaith ar Ogledd Cymru tan ar ôl cyhoeddi'r setliad dros dro.

Wrth graffu ar yr adroddiad, cydnabu'r Panel ddifrifoldeb y sefyllfa a'r effaith gallai hyn ei gael ar gymunedau yng Ngogledd Cymru; un ai gostyngiad mewn plismona neu gynnydd arwyddocaol mewn Treth y Cyngor.

Cyfeiriwyd hefyd at y tanwariant mewn Fforensig, yn arbennig gan ei bod yn ymddangos bod cynnydd mewn galw fel yr amlygwyd yn y cyflwyniad Rhaglen Gwelliant Gweithredol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod posibilrwydd bod y gyllideb wreiddiol wedi cael ei orbwysleisio, gan fod arbedion arwyddocaol wedi ei gyflawni wrth newid contractwr.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r wybodaeth.**

50. **MATERION BRYS**

Rhoddodd Dirprwy Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd friff ar Brexit a'r goblygiadau ar gyfer plismona a diogelwch, pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 29 Mawrth 2019.

Rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd sylw i'r canlynol:

- O dan y Cytundeb Ymadael Drafft bydd cyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020; mae'r 'Fargen' yn cynnwys addewid i gydweithredu ar ddiogelwch ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.
- Fodd bynnag, ar ôl 31 Rhagfyr 2020 nid oes sicrwydd gwirioneddol o beth fyddai'n digwydd. Roedd posibilrwydd gwirioneddol ar 29 Mawrth 2019 y byddai'r trefniadau presennol o ran cydweithredu ar ddiogelwch yn dod i ben heb unrhyw beth yn ei le.
- Roedd Cymdeithas y Comisiynwyr wedi gwerthuso'r datblygiadau a chynllunio at raid diweddaraf, a datgelwyd unwaith i'r cyfnod Pontio ddod i ben, bydd y DU yn cael ei gloi allan o holl gronfeydd data a systemau cronfeydd data'r UE.
- O dan y 'Fargen', byddai'r DU yn gallu parhau i wneud ceisiadau i gael mynediad at systemau a fyddai'n darparu cudd-wybodaeth am

unigolion a ddrwgdybir, ond dim ond ar ymchwiliadau sydd wedi dechrau'n barod.

- Byddai'r Gwarant Arestio Ewropeaidd yn parhau ar gael i'r DU yn ystod y cyfnod pontio – fodd bynnag o dan gafeat arbennig gall wledydd wrthod anfon eu gwladolion i wynebu prawf yn y DU.
- Mae Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn rhybuddio y gallai plismona weld gostyngiad arwyddocaol mewn gallu i orfodi'r gyfraith, a gall droseddwyr ecsbloetio hyn.
- Mewn ymateb i'r risg gynyddol i ddiogelwch, bydd canolfan Cydlynu Trosedd Rhyngwladol newydd yn gweithredu erbyn Rhagfyr 2018. Ei brif bwrpas fydd cynorthwyo'r lluoedd i ddefnyddio mecanweithiau amgen i reoli trosedd rhyngwladol yn dilyn cytundeb terfynol.
- Ond beth fyddai'n digwydd petai dim bargen – mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Prif Gwnstabliaid wedi derbyn y dasg o asesu risg yr effeithiau o 'ddim bargen neu Brexit caled'.
- Mae'r Gwir Anrhydeddus Nick Hurd AS, Gweinidog dros Blismona yn disgwyl i'r Comisiynwyr graffu eu lluoedd unigol ar eu cynlluniau ar gyfer Brexit heb fargen.
- Yn ddiweddar dywedodd y Comisiynwr dros Ogledd Cymru bod y 41 o Gomisiynwyr wedi gorfod cau eu cegau gan fod y wybodaeth gan yr APCC a'r NPCC wedi eu nodi'n 'Gyfrinachol'. Roedd y Comisiynydd o'r farn y dylai'r Panel a'r cyhoedd gael gwybod os oes cynnydd mewn risg i ddiogelwch.
- Os yw'r DU yn gadael yr UE heb fargen ac os caiff y DU ei wahardd rhag y 36 o wasanaethau a rannir ar hyn o bryd i dargedu troseddwyr ar draws Ewrop, rhagdybir y bydd risg gynyddol i ddiogelwch.
- Mae'r gwasanaethau a rannir yn disgyn i 3 chategori
    - Cydweithrediad a Chydweithio Ymarferol h.y. Gwarantau Arestio Ewropeaidd a Gorchymyn Ymchwiliol Ewropeaidd;
    - Cyfnewid Data;
    - Perthnasau e.e. aelodaeth o Europol ac Eurojust.
- Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cartref ar 20 Hydref 2018, cyhoeddodd Dirprwy Brif Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd a Chyfarwyddwr Cyffredinol NCA eu bod wedi cyfarfod â'u cydweithwyr Ewropeaidd a Phennaeth Europol. Roeddent oll yn ei gweld yn gritigol bod y partneriaid yn aros yn y perthnasau hynny.
- Roedd cyfarfod briffio'r APCC ar y 23 Tachwedd 2018 wedi nodi'r risgiau canlynol: Roedd disgwyl i drosedd trefniadol, meddiangar, personol a throsedd casineb gynyddu a chynnydd hefyd mewn protestiadau, aflonyddwch sifil ac anrhefn gyhoeddus.
- Gall y risgiau hyn fod yn her i'r heddlu a disgwyliwyd y bydd y gofyniad ar gyfer cymorth rhwng lluoedd yn cynyddu, yn ogystal â'r gofyniad am gefnogaeth gan asiantaethau nad ydynt yn rhan o'r heddlu.
- Disgwyliwyd y bydd ymyrraeth i'r system gludiant ac i bobl sy'n croesi'r ffin, yn ogystal â'r bygythiad uwch i safleoedd isadeiledd cenedlaethol allweddol. Mae posibilrwydd hefyd ar gyfer ymgeisio am gymorth gan Gibraltar a Chyprus.

- Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn cyfarfod â Gweithgor Brexit y Panel yr wythnos nesaf i bwysleisio pryderon difrifol a rannir gan y 41 o Gomisiynwyr.

Bydd y Comisiynydd yn parhau i ofyn i'r Prif Gwnstabl o ran trefniadau lleol ac yn parhau i ymgysylltu ag ASau ar bwysigrwydd cynnal trefniadau plismona a diogelwch gyda'r UE.

Diolchodd y Comisiynydd i'r Dirprwy Gomisiynydd am y briff a thrafododd pwysigrwydd cael asesiadau risg mewn lle.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r wybodaeth.**

51. **ADOLYGIAD O RÔL AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Cyflwynodd Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd adroddiad yn dilyn adolygiad o rôl yr Aelod sy'n Gefnogwr ar ôl treial 12 mis, yn dilyn cais gan y Panel ar 18 Medi 2017.

Roedd adborth gan Aelodau'r Panel yn awgrymu eu bod yn dymuno i'r rôl barhau. Yn ogystal, er bod amheuaeth gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o ran cylch gwaith y rôl, mae'n ymddangos bod yr Aelod Sy'n Gefnogwr ar rai achlysuron wedi bod yn eiriolwr i'r gwaith a gyflawnir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac roedd yr Aelod Sy'n Gefnogwr wedi gallu rhoi sicrwydd i'r Panel, yn arbennig o ran materion yn ymwneud â'r gyllideb.

Mewn ymateb i'r argymhelliad o gynnwys adroddiad ysgrifenedig ar y rhaglen, oherwydd yr adnoddau sy'n ymglymedig, cytunwyd bod adroddiadau llafar yn ddigonol.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol wrth y Panel Heddlu a Throsedd ei fod wedi cynnal gweithdy yn ddiweddar mewn Cynhadledd Panel Heddlu a Throsedd yn Warwick ar rôl yr Aelod Sy'n Gefnogwr wrth graffu a chefnogi penderfyniadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru; cafodd dderbyniad da gan y Paneli eraill, a oedd yn gallu gweld manteision y rôl.

Diolchodd y Swyddog Arweiniol i'r Aelodau sy'n Gefnogwyr am gyflawni'r rôl ac i'r Comisiynydd a Swyddfa'r Comisiynydd am y berthynas gweithio da sydd wedi ei sefydlu.

Nodwyd pe byddai'r Comisiynydd yn diwygio ei flaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd, yna bydd angen adolygiad o'r protocol.

**PENDERFYNWYD-**
**Parhau i adolygu rôl yr Aelodau sy'n Gefnogwyr fel y bo angen.**

52. **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD CYLLIDEB 1 EBRILL 2018 I 30 MEDI 2018.**

Cyflwynodd Swyddog Arweiniol y Panel adroddiad monitro cyllideb chwe mis i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar dreuliau'r Panel am y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2018.

Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y Panel, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei roi fel amod ar y taliad grant sengl, ac felly byddai rhaid i'r Panel fel isafswm, ar ei wefan, gyhoeddi manylion ei holl wariant. Mae'n ofynnol i'r Panel roi gweithdrefnau ar waith i fonitro ac olrhain gwariant yn erbyn y gyllideb a gytunwyd, a hefyd tynnu sylw at sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

Roedd costau gweinyddol yn uwch na 50% o'r dyraniad ar gyfer y cyfnod adroddi; roedd hyn oherwydd y swm anghymesur o amser y Swyddog a dreuliwyd yn delio â chwynion. Roedd costau Aelodau hefyd yn uwch na'r arfer, oherwydd gofyniad i gynnal gwrandawiad cadarnhau ar gyfer penodiad y Prif Gwnstabl a chyfarfod yr Is-bwyllgor Cwynion.

O ran arbedion effeithlonrwydd, gwerthusodd y Panel yr angen i fynychu digwyddiadau hyfforddi a chyfarfodydd allanol; lle bynnag bosib, cynhaliwyd cyfarfodydd trwy Skype neu gynadleddau teledu.

Roedd hi'n debygol y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn a thu hwnt, oherwydd yr holl amser Swyddfa oedd ei angen i gefnogi'r Panel, bydd angen i'r costau hyn gael eu talu gan yr Awdurdod Cynnal. Gwnaed sylwadau i'r Swyddfa Gartref o ran grant, yn dilyn cyfranogiad mewn astudiaeth y Swyddfa Gartref.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r adroddiad monitro chwe mis.**

**(b) Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod Swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig i sicrhau gwerth am arian.**

53. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Dywedodd yr Uwch-Swyddog Cymorth y byddai'n gwahodd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes i un o'r cyfarfodydd nesaf. Yn ogystal, estynnir gwahoddiad i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y dull newydd yr oeddent yn ei dreialu.

Awgrymodd Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:

- Tîm Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Rhagfyr 2019
- Cronfa Ymyrraeth Gynnar – Rhagfyr 2019
- Rhaglen Checkpoint – Hydref 2019

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar gynnwys y testunau a argymhellir uchod.**

54. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Panel Heddlu a Throsedd ddydd Llun 28 Ionawr 2019 am 2.00pm ac os oes angen, ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 am 10.00am os bydd pleidlais atal y praesept.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm)

# CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

| Person sy'n cyflwyno'r cwestiwn | Dyddiad Cyfarfod y Panel | Cwestiwn | Cyflwyno i'r Comisiynydd |
|---|---|---|---|
| John Williams | 28/01/19 | **Cwestiwn 1:**<br><br>Yn ystod misoedd diweddar, codwyd rhai pryderon yn y wasg leol a chenedlaethol ynghylch dwy agwedd ar blismona, sef awyrennau'r heddlu ac ymchwilio i dwyll, yr ymddengys i'r ddwy agwedd gael eu goruchwylio nawr ar lefel Genedlaethol.<br><br>Datganodd The Times (27/12/18) fod heddlu gwledig yn llawer llai tebygol o ddatrys twyll a dyfynnwyd cyfraddau cyhuddo o 65% yn Ninas Llundain, Hampshire a Durham o'i gymharu â 6% yn Swydd Gaer a Norfolk.<br><br>O ran ymchwilio i Dwyll yng Ngogledd Cymru, a yw'r heddlu'n dal gyda Changen Ymchwilio i Dwyll ac a yw'r Comisiynydd yn fodlon gyda lefel y gwasanaeth a roddir i breswylwyr Gogledd Cymru o ran Ymchwilio i Dwyll?<br><br>**Ateb 1.**<br><br>Nid oes gan Heddlu Gogledd Cymru dîm llawn amser sydd wedi ymrwymo i ganolbwyntio'n llwyr ar ymchwiliadau twyll.<br><br>Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r dull ar gyfer ymchwiliadau ariannol a thwyll wedi datblygu'n lleol ac yn genedlaethol. Mae'r system 'action fraud' cenedlaethol bellach yn gyfrifol am alw sylweddol a'r digwyddiadau cysylltiedig mwyaf yn genedlaethol, caiff y system ei chynnal gan heddlu dinas Llundain a chaiff ei adlewyrchu yn eu perfformiad. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru fforwm twyll a gaiff ei arwain gan Dditectif Uwch-arolygydd sy'n ystyried perfformiad lleol yn y maes hwn. | 31/12/18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud 18<br><br>Tudalen 18 | | Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig mewn ymchwiliadau ariannol a thwyll sydd wedi'u lleoli'n ganolog ac yn y swyddfeydd Ymchwilio i Droseddau. Eleni, rydym yn bwriadu hyfforddi 10 o swyddogion pellach yn y maes. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal system brysbennu lle caiff twyllau eu hasesu yn seiliedig ar gymhlethdod a bregusrwydd. Mae arbenigwr trosedd seiber hefyd yn adolygu'r drosedd ac yn penderfynu pa gymorth, cyngor ac opsiynau ataliol y gellir eu rhoi ar waith. Rydym hefyd yn nodi swyddogion Timoedd Plismona Cymdogaeth i ddioddefwyr rhai troseddau gydag agenda ataliol ar waith i fynd i'r afael â cham-fanteisio pellach.<br>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru'r opsiwn i geisio adnoddau a chymorth ychwanegol gan Unedau Troseddau Trefnedig Rhanbarthol y Gogledd Orllewin ar gyfer ymchwiliadau twyll cymhleth. Mae'r uned trosedd trefnedig rhanbarthol – Gogledd Orllewin wedi ymrwymo adnoddau i dargedu troseddau o'r fath, a chynhelir cyfarfodydd rhanbarthol yn ogystal er mwyn lledaenu arfer gorau a chynnig cefnogaeth i gymheiriaid. Mae'r tîm adennill asedau o fewn yr uned trosedd trefnedig rhanbarthol wedi arfer adennill POCA presennol a gorchmynion ariannol yn erbyn troseddwyr euog.<br><br>Rydym wedi rheoli unrhyw dwyll lleol sylweddol yn y maes trosedd hwn drwy ymgynnull arbenigwyr i ffurfio tîm ymroddgar i gwblhau swydd benodol yn ôl y galw. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Er y byddem yn croesawu adnoddau pellach, nid yw'r achos am dîm twyll ymroddedig mor gryf â'r achos am feysydd risg a thwyll eraill ar hyn o bryd, caiff hyn ei asesu ddwywaith y flwyddyn yn asesiad strategol y llu. Pe bai'r sefyllfa yn newid, yna byddem yn ystyried ailedrych ar ein dull.<br><br>**Cwestiwn 2:** | |

O ran Awyrennau'r Heddlu, nodwyd yn ddiweddar mewn papur newydd lleol bod nifer uchel o geisiadau wedi'u gwneud gan Heddlu Gogledd Cymru am awyrennau'r heddlu, a oedd heb fynd rhagddynt. A yw'r Comisiynydd yn fodlon gyda lefel y gefnogaeth a roddir gan wasanaeth awyrennau cenedlaethol yr Heddlu, ac ymhellach at hynny, a yw maes awyr Caernarfon yn cael ei ddefnyddio ddigon, neu a ddylid ei ddefnyddio fwy.

**Ateb 2**:

Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddlu wedi mynegi pryderon ynghylch argaeledd cymorth awyr gan wasanaeth awyr cenedlaethol yr heddlu, oherwydd mae gennym nifer o luoedd. Fodd bynnag, mewn hinsawdd o gyni cyllidol parhaus, ni ragwelir y byddai Heddlu Gogledd Cymru byth yn gallu fforddio ymadael â Phartneriaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Cydnabyddir hefyd bod y Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn faes cymhleth a drud i'w gynnal.

Mae'r galw y mae'n rhaid ei fodloni'n yn cynnwys cymorth rheolaidd a chymorth graddfa eang sylweddol yn ystod digwyddiadau difrifol.
Caiff dyfodol darpariaeth Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ei ddadlau yng nghyngor y prif gwnstabl ym mis Ionawr 2019, mae Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn rhan o'r ddadl.

Mae nifer o resymau dros y dirywiad ym mhresenoldeb awyrennau, gan gynnwys y tywydd; bod yr awyrennau'n cwblhau tasgau eraill yn seiliedig ar fygythiad, niwed a risg, nid yw awyrennau ar gael o bryd i'w gilydd o ganlyniad i waith cynnal a chadw, ceisiadau anaddas a'r defnydd cynyddol o ddronau.

Mae'r Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn rhan o Ranbarth y Gogledd Orllewin, sydd â 6 Awyrlu (GMP, Glannau Mersi, Swydd Gaer, Sir Gaerhirfryn, Cymbria a’r Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol). Mae dwy orsaf yn gwasanaethu'r galw yn y Gogledd Orllewin, un yng Ngogledd Cymru ac un ym Manceinion Fwyaf. Fodd bynnag, nid oes ffin i dasgau’r awyrennau, ac mae awyrennau o ranbarthau cyfagos hefyd wedi cael eu hanfon i Ogledd Cymru, er enghraifft, pan gafwyd tanau glaswellt yng Ngwynedd y llynedd, anfonwyd awyren o Orllewin Canolbarth Lloegr, a defnyddiwyd Caernarfon fel gorsaf. Roedd anfon yr asedau awyr hyn yn addas ac yn gymesur dan yr amgylchiadau i gefnogi’r Gwasanaeth Tân ac i amddiffyn y gymuned leol. Nid yw Caernarfon yn orsaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, ac mae’n annhebygol o fod yn un o ganlyniad i’r pellter i gyrraedd Lluoedd eraill y Gogledd Ddwyrain yn unol â’r galw disgwyliedig.

Ar y cyfan, mae ceisiadau am awyrennau yn gostwng yn genedlaethol, ac nid yw’r Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yn eithriad o ran y gostyngiad yng ngheisiadau’r gwasanaeth.

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

# ***<u>Diwygio Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd</u>***

## ***<u>Ionawr 2019</u>***

***<u>Diweddariad gan y Comisiynydd – Ionawr 2019</u>***

Mae bron dwy flynedd wedi mynd heibio ers i mi gyhoeddi fy Nghynllun Heddlu a Throsedd cyntaf fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a chredaf ei bod hi rŵan yn bryd i mi ailedrych a diweddaru'r blaenoriaethau ynddo.

Pan lansiwyd y cynllun gwreiddiol fis Mawrth 2017, roedd arnaf eisiau i drigolion gogledd Cymru dderbyn y gwasanaeth heddlu gorau posibl a gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac ar ein strydoedd. Mae cynnydd aruthrol wedi ei wneud ers lansio'r cynllun, fel yr amlinellaf yn fy adroddiad blynyddol diweddaraf sydd ar gael yma. Fodd bynnag, mae yna fwy o waith i'w wneud ac yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae arnaf eisiau gweld Heddlu Gogledd Cymru, fy swyddfa a'n partneriaid yn adeiladu ar y cynnydd hwn.

Mae cynllun effeithiol yn gynllun sy'n datblygu, a dyna pam fy mod yn dymuno diweddaru fy Nghynllun Heddlu a Throsedd i adlewyrchu'r heriau yr wyf yn credu y dylai Heddlu Gogledd Cymru fynd i'r afael â nhw. Rwyf wedi dilyn proses benodol a manwl i bennu fy mlaenoriaethau. Rwyf wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, gwasanaethau statudol, partneriaid sector cyhoeddus a phreifat, y cyhoedd a'r sector gwirfoddol.

Yn 2017 roedd fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn cynnwys y pum blaenoriaeth ganlynol:

- ***Cam-drin domestig***
- ***Caethwasiaeth Fodern***
- ***Trosedd Gyfundrefnol***
- ***Cam-Drin Rhywiol (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)***
- ***Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel***

Mae'n bwysig iawn fy mod yn deall ac yn ailasesu'r troseddau a welir yng ngogledd Cymru yn gyson, yn ogystal â gwerthuso'r blaenoriaethau i weld a ydynt yn parhau i ddiwallu'r angen a'r galw am wasanaethau plismona.

Wrth gynnal yr adolygiad canol tymor hwn rwyf hefyd wedi ystyried yr asesiad trosedd y mae'r heddlu wedi ei gynnal. Mae'r asesiad hwn yn amlygu'r troseddau a welir fwyaf. Mae'n nodi math a natur y troseddau a sut maent yn effeithio ar gymunedau. Mae'n fy helpu i ddeall y troseddau sy'n cael yr effaith fwyaf. Yn aml iawn, nid y troseddau niferus yw'r rhain yn aml iawn, h.y. troseddu cyffredinol a meddiangar – dwyn a byrgleriaeth. Ar y cyfan mae'r rhain yn droseddau lladradaidd gydag effaith absoliwt, gan effeithio ar y rheiny sydd fwyaf diamddiffyn.

Yn ogystal â dadansoddi'r troseddau a gofnodwyd, rwyf hefyd wedi ystyried barn ac adborth y cyhoedd am y troseddau a'r canfyddiad am droseddu sy'n cael yr effaith fwyaf arnynt fel unigolion a chymunedau. Rwyf wedi ystyried yr adborth hwn ac mae'r darlun yn dod yn fwyfwy clir. Cam allweddol arall wrth geisio deall hyn oll yw siarad gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector.

Mae'n bwysig edrych ar achosion trosedd a deall beth sy'n cymell pobl i droseddu. Mae materion fel effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gofyn am fwy o ddealltwriaeth, gwaith a chyllid i fynd i'r afael â nhw.

Un peth yr hoffaf roi ar ddeall, yn seiliedig ar yr asesiad a'r dystiolaeth sydd ar gael i mi, yw nad oes fawr o newid mewn materion trosedd. Rydym wedi dechrau datgelu heriau caethwasiaeth fodern a'r ymchwiliadau cymhleth; mae troseddu cyfundrefnol yn dal yn her, felly hefyd trais domestig a cham-drin rhywiol. Ac mae'r angen i deimlo'n ddiogel mewn cymdogaethau yn absoliwt. Yr hyn sydd wedi newid fodd bynnag yw ein dealltwriaeth o'r ffyrdd y gallwn ni fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn well.

Mae'r diwygiadau hyn yn seiliedig ar fy marn bersonol ac ar adborth trigolion gogledd Cymru a gasglwyd drwy arolwg ar-lein, ac mae canlyniadau'r arolwg hwnnw ar gael yma.

Felly hoffaf rŵan rannu'r newidiadau yr wyf wedi eu gwneud i'm blaenoriaethau.

## ***Y Blaenoriaethau Diwygiedig***

***Lleihau Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn***

Mae camfanteisio troseddol i'w weld ar draws y pum blaenoriaeth plismona isod, ac felly mae lleihau camfanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn yn mynd i fod yn flaenoriaeth drosfwaol sy'n treiddio trwy'r holl flaenoriaethau.

Bydd y rheiny ohonoch chi sy'n gyfarwydd â'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn gwybod ei fod yn cynnwys adran 'Diogelu Pobl Ddiamddiffyn' sy'n cynnwys iechyd meddwl, trosedd casineb, plant, pobl ifanc a phobl hŷn, a chyffuriau. Fodd bynnag, bryd hynny roedd termau fel llinellau cyffuriau a chogio yn weddol anghyfarwydd. Ac rwyf yn gwybod, yn sgil diweddariadau cyson gan y Prif Gwnstabl, bod y troseddau hynny yn broblem i ni yng ngogledd Cymru.

Mae lleihau'r achosion o gamfanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn yn cynnwys pob person diamddiffyn - plant, pobl ifanc a phobl hŷn. Byddaf yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar linellau cyffuriau - troseddau creulon sy'n ecsbloetio pobl ddiamddiffyn a'u denu i fyd o droseddu peryglus a threisgar sy'n anodd dianc rhagddo.

Mae camfanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn i'w weld mewn troseddu cyfundrefnol, caethwasiaeth fodern, camdriniaeth rywiol a throseddu lleol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd yn rhaid i blismona yng ngogledd Cymru roi sylw sylweddol i atal a diogelu pobl rhag camfanteisio troseddol.

***Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol***

Roedd yn fwriad gennyf uno'r blaenoriaethau hyn i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015). Ar 30 Tachwedd 2018 cynhaliais ddigwyddiad ymgynghori gyda'r trydydd sector ac roedd yr adborth o blaid cadw'r blaenoriaethau ar wahân.

Mae'n amlwg y byddai uno'r blaenoriaethau wedi achosi i bobl boeni y byddem yn rhoi llai o flaenoriaeth i'r ddau fater ac y byddai troseddau o'r fath yn colli allan i droseddau eraill wrth gomisiynu gwasanaethau. Nid dyna oedd fy mwriad, ac mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaethau uchel iawn i mi. Felly, ar ôl ystyried yr adborth, rwyf wedi penderfynu cadw **cam-drin domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaethau ar wahân.**

***Caethwasiaeth Fodern***

Mae caethwasiaeth fodern yn parhau i fod yn flaenoriaeth drwy ei hawl ei hun. Yn bwysig iawn, mae'n cynnwys camfanteisio troseddol. Mae llawer o adnoddau penodol wedi eu buddsoddi ar gyfer caethwasiaeth fodern. Nid yw caethwasiaeth fodern wedi diflannu ond, i'r gwrthwyneb, rydym wedi gweld y mater yn datblygu wrth i ni ddeall mwy a datgelu mwy ynglŷn â sut mae'r troseddau hyn yn cael eu cyflawni. Ac wrth i ni roi mwy o adnoddau i fyn i'r afael â hyn rydym ni'n datgelu hyd yn oed mwy o weithgarwch troseddol. Rydym ni wedi dechrau, a byddwn yn parhau â'r gwaith yma i ddeall a mynd i'r afael â'r mater yng ngogledd Cymru.

***Trosedd Gyfundrefnol***

Ers i mi gyhoeddi fy nghynllun cyntaf mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael llwyddiant ysgubol wrth ddelio â throseddau difrifol a threfnedig. Wrth gwrs, mae cyswllt anorfod rhwng cyflenwi cyffuriau dosbarth A a throsedd gyfundrefnol. Rwyf yn dal yn ymgyrchu i'r llywodraeth newid y ffordd rydym yn delio â chyffuriau a chamddefnyddio sylweddau, ond nid yw hynny yn golygu y dylid rhoi llai o sylw i fynd i'r afael â gwerthwyr cyffuriau. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i erlyn y rheiny sy'n cyflenwi cyffuriau ac yn poenydio pobl ddiamddiffyn.

Mae asesiadau bygythiadau, risg a niwed wedi tynnu sylw at y ffaith mai trosedd gyfundrefnol a chyflenwad cyffuriau haen uwch sy'n dod â'r niwed mwyaf i'n cymunedau. Mae gweithdrefnau cynllunio effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r defnydd troseddol o ynnau, cyflenwad a meddiant cyffuriau, cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, terfysgaeth ac eithafiaeth ddomestig. Mae mynd i'r afael â troseddau difrifol a threfnedig yn dal yn flaenoriaeth uchel i mi a'r Prif Gwnstabl.

***Cymdogaethau Mwy Diogel***

Er bod creu a datblygu cymdogaethau mwy diogel yn ymwneud â mynd i'r afael â throseddwyr unigol ar ôl derbyn ffeithiau'r drosedd, byddai defnyddio hynny fel ffordd strategol i ddelio â throseddau yn arwain at fethiant llwyr. I'r gwrthwyneb, mae arnom ni angen edrych ar y rhesymau dros droseddu. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r materion hynny a chael gwared ar y ffactorau sy'n arwain at droseddu, a dyna pam rwyf yn awyddus i gynnwys 'dargyfeirio' yn fy nghynllun ar gyfer plismona, yn arbennig plismona lleol. Bydd hyn yn cynnwys delio â throseddwyr neu droseddwyr posibl ar gam cynnar a phriodol.

Mae fy mlaenoriaethau plismona yn delio â nifer o faterion difrifol iawn ac er fy mod yn gwybod bod pobl ar y cyfan yn deall pam bod yn rhaid i mi ddelio â'r materion hyn, maent hefyd yn pryderu ynghylch y materion llai difrifol sy'n effeithio ar gymunedau. Dyma droseddau, er nad ydynt yn rhai erchyll, sy'n dinistrio ac yn effeithio ar ymddiriedaeth cymunedau ac ansawdd bywyd unigolion, yn arbennig pobl ddiamddiffyn. Drwy flaenoriaethu 'dargyfeirio' rwyf yn gobeithio gostwng troseddu a, thrwy hynny, lleihau'r galw ar swyddogion er mwyn eu galluogi i dreulio mwy o amser yn ymgysylltu â'r gymuned a rhoi sicrwydd i drigolion.

Ym mis Hydref 2019 byddaf yn cyflwyno CheckPoint Gogledd Cymru. Cynllun gwirfoddol sy'n dargyfeirio oedolion sy'n troseddu yw CheckPoint, sydd ar waith ar hyn o bryd yn ardal Cwnstabliaeth Durham. Mae'n targedu mân droseddwyr yn y system cyfiawnder troseddol ac yn rhoi dewis amgen iddynt yn lle erlyniad troseddol. Y dewis amgen yw rhaglen 4 mis sy'n nodi ac yn delio â'r rhesymau dros yr ymddygiad troseddol. Os nad yw'r troseddwr yn cwblhau'r rhaglen, neu os yw'n methu bodloni'r gofynion, bydd yn dychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol ac yn wynebu erlyniad.

Mae rhaglen CheckPoint yn adeiladu ar egwyddorion rheoli troseddwyr profedig i gynnwys carfan ehangach o oedolion. Mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynt ar 'daith droseddol' yr unigolyn er mwyn ceisio atal bywyd yr unigolyn rhag mynd yn caotig; ac i sicrhau nad yw'n troseddu i'r fath raddau y mae'n cyrraedd y trothwy ar gyfer Uned Rheoli Troseddwyr Integredig.

Mae'n rhaglen amlasiantaeth sy'n gwella ymwybyddiaeth a mynediad unigolion yn y ddalfa i wasanaethau iechyd, gyda'r nod o wella iechyd y cyhoedd, cyfleoedd bywyd a lles unigolion a chymunedau. Bydd hefyd yn darparu mynediad i wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol. Mae gan y rhaglen y potensial i leihau derbyniadau Damweiniau ac Achosion Brys, drwy godi ymwybyddiaeth a mynediad pobl i ddarpariaethau iechyd tra maent yn y ddalfa. Dengys ymchwil bod buddsoddi rŵan yn gallu arbed arian yn y dyfodol – a hynny drwy leihau'r galw wrth i fwy o bobl ymgysylltu'n llwyddiannus - ac yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni dyma gyfle na allwn ei golli.

Fy nod yw dargyfeirio mân droseddwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol gan edrych ar eu rhesymau dros droseddu a lleihau nifer y bobl sy'n derbyn cofnod troseddol.

## *Gweithio mewn partneriaeth effeithiol i leihau niwed*


Mae gweithio mewn partneriaeth effeithiol i leihau niwed, fel y nodir yn fy nghynllun cyntaf, yn dal yn flaenoriaeth ac yn cefnogi'r blaenoriaethau plismona eraill. Mae'r materion sy'n codi o achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a throseddau difrifol eraill yn aml iawn yn gofyn am fwy na phlismona, a dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gallwn ymateb yn effeithiol.

Yn bwysig, mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn lleihau'r galw, a thrwy hynny'n cynyddu gallu staff rheng flaen yr holl awdurdodau cyfrifol. Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd Heddlu Gogledd Cymru yn canolbwyntio mwy ar ddatrys problemau ac yn darparu hyfforddiant i bob aelod o staff. Hoffaf annog ein holl bartneriaid i ddilyn yr esiampl yma fel ffordd effeithiol o leihau'r galw sydd arnom.

Heb amheuaeth, yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y troseddau mwyaf difrifol. O ganlyniad, bydd mwy o droseddau yn cael eu cofnodi, mwy o droseddwyr yn cael eu herlyn a'u monitro ar ôl bod yn y system cyfiawnder troseddol ac, wrth gwrs, mwy o ddioddefwyr yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth orau posibl.

Wrth i Heddlu Gogledd Cymru ganolbwyntio a buddsoddi mwy o adnoddau i ddelio â'r troseddau hyn, byddaf yn gofyn am sicrwydd gan ein partneriaid y bydd eu hymateb wrth gefnogi'r heddlu yr un mor effeithiol ac effeithlon.

# Gweithio Mewn Partneriaeth Effeithiol



**Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

**Teitl:** **Praesept a Threth y Cyngor 2019/20**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 28 Ionawr 2019**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer praesept a threth y cyngor 2019/20.

## 2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £81,030,000

- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor o 7.74% - mae hyn yn gyfystyr â £278.10 y flwyddyn, cynnydd o £19.98 y flwyddyn, neu 38c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.
- Mae hyn yn gynnydd mewn praesept o 8.42% o 2018/19

2.2 Nodi bod £2.832m o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2019/20.

2.3 Nodi bod £2.793m o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi i weithgareddau'r rheng flaen.

2.4 Nodi bod £2.614m arall yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi'r rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol mewn praesept.

2.5 Nodi bod y cynnydd chwyddiant uwch na'r disgwyl o £5.223m yn deillio o'r penderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth o ran costau pensiwn y sector cyhoeddus.

2.6 Nodi bod y cynnydd arfaethedig i dreth y cyngor yn llawer is na lefel y Swyddfa Gartref sef £24.

2.7 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Bydd y Cyngor Treth yn cynyddu oddeutu 7.74% yn 2019/20, a 4.32% yn 2020/21, 4.14% yn 2021/22 a 3.97% yn 2022/23 a 3.82% yn 2023/24.
- Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2021/21 a thu hwnt.
- Bydd dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2% o fis Medi 2019.
- Bydd costau ychwanegol o ran y Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEDQF) newydd o 2020-21, a ni chaiff ei ariannu gan yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru.

## 3. Crynodeb o Gyllideb 2019/20

| | £m | |
|---|---|---|
| **Cyllideb 2018/19** | **146.466** | |
| Gofynion chwyddiant | 5.223 | +3.57% |
| Arbedion a nodir | -2.832 | -1.93% |
| Ailfuddsoddi | 2.793 | +1.91% |
| Ychwanegedd | 2.614 | +1.78% |
| **Gofynion Cyllideb 2019/20** | **154.264** | +5.32% |

| **Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2019/20** | | | |
|---|---|---|---|
| Grantiau Llywodraeth (cyfran cyllid 47.5%) | | 73.234 | +2.10% |
| Treth y Cyngor | £278.10 | | +7.74% |
| Wedi'i luosi a sylfaen drethu | 291,370.01 | | +0.63% |
| Praesept (cyfran cyllid 52.5%) | | 81.030 | +8.42% |
| **Cyfanswm y cyllid ar gael** | | **154.264** | **+5.32%** |

**4. Eitemau Statudol**

4.1 Safon y Wybodaeth

4.1.1 Mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (s5) wneud sylw ar addasrwydd y wybodaeth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau cyllidebol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn deillio o weithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Mae'r systemau hyn yn cael eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwiliad allanol erioed wedi arwain at adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas i'r diben.

4.1.2 O dan yr un Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid wneud sylw ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r gronfa gyffredinol wrth gefn yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu dydd i ddydd yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi cael eu hadolygu, ac mae mwy o fanylion ar gael yn adran 9. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd wrth gefn yn awr yn agosáu at ran isaf yr ystod sy'n dderbyniol, ac efallai bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn dros gwrs y CATC os bydd angen ariannu gwariant heb ei gynllunio neu ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

**5. Cefndir**

5.1 Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad ariannol a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Cyllidebau'r Heddlu dros y 4 blynedd (2011-12 i 2014-15) o'r CSR2010 oedd 12%; y gostyngiad gwirioneddol mewn grantiau hyd at ddiwedd 2018-2019 fydd 22.2%. Mewn termau real (gan gyfrif chwyddiant), mae hwn wedi'i asesu'n annibynnol fel toriad o 32.2%.

5.2 Mae cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi amrywio rhwng 2% a 4% dros yr un cyfnod. Gosododd y Comisiynydd gynnydd o 3.58% yn Nhreth y Cyngor yn 2018-19 yn dilyn setliad grant wastad (0%) nad oedd yn darparu unrhyw adnoddau ychwanegol tuag at gostau chwyddiant, megis dyfarniadau cyflog. Arweiniodd effaith gyffredinol o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £31.104 miliwn o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 8 mlynedd. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad ariannol o 21% yng nghyllideb cyn caledi 2010-11 o £148.035 miliwn. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a wnaed | £4.678m | £6.016m | £4.634m | £4.325m | £4.448m | £2.838m | £2.686m | £1.479m | £31.104m |

5.3 Darparodd y Swyddfa Gartref setliad wastad yn 2018-19 a chyflwyno lefel ragdybiedig o gynnydd yn Nhreth y Cyngor i £12, a fyddai'n golygu na fyddai gostyngiad ariannol i'r Heddluoedd pe bai'n cael ei weithredu. Roedd arwyddion cryf y byddai cyllideb wastad yn parhau yn 2019-20.

5.4 Mae'r Llywodraeth yn cynnal adolygiad o wariant yn 2019-20 gyda'r bwriad o '*osod cyllidebau hirdymor i'r heddlu ac ystyried sut mae dyrannu adnoddau'n deg rhwng yr heddluoedd'*. Nid yw'n eglur a fydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r fformiwla gyllid.

**6. Yr Amgylchedd Cynllunio**

6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ynghlwm yn gosod yr amgylchedd cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf, ynghyd â rhagamcaniadau ar gyfer gwariant ac incwm refeniw, a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Mae'r broses o ganfod, cytuno ar a gweithredu arbedion yn rhan o'r drefn arferol. Ar ben hynny, cynhaliwyd y Rhaglen Gwelliant Gweithredol a oedd yn adolygiad sylweddol o adnoddau gweithredol a ganolbwyntiai ar blismona cymdogaethol, cadw pobl yn y ddalfa, adnoddau ymchwilio, rheoli digwyddiadau a phennu cwnstabliaid a sarsiantiaid. Mae'r broses gyffredinol yn cael ei rheoli gan y Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS). Eleni, ystyriodd y Bwrdd y cynllun arbedion a'r ceisiadau ail-fuddsoddi, gan roi ystyriaeth i'r adolygiadau a gynhaliwyd. Ar ben hynny, cynhaliwyd adolygiad blynyddol o gyllidebau cyflog ac ymarfer cyllidebu sylfaen sero ar gyllidebau TG, cyfleusterau, y fflyd ac elfennau o'r gyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau er mwyn cadarnhau'r arbedion yn y cynllun ac er mwyn ceisio dod o hyd i arbedion pellach, os oedd modd.

6.3 Rheolwyd y broses drwy ddau gyfarfod cyllidebu penodol a gynhaliwyd fis Hydref a mis Tachwedd. Roedd y RhGG wedi adrodd ei chanfyddiadau yn ôl i'r Prif Swyddogion fis Gorffennaf, cyn ymgynghori yn yr ardaloedd a oedd dan sylw a'r Heddlu ym mis Awst, ac adrodd yn ôl wrth y BCS yn rhan o'r broses o bennu cyllideb ym mis Hydref a Thachwedd.

6.4 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Wrth ddatblygu'r CATC, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Plismona ac yng Nghynllun Gweithredu'r Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses cynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol

- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllideb ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

6.5 Erbyn yr ail gyfarfod cyllideb a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2019 roedd y Prif Gwnstabl newydd, Carl Foulkes wedi ymgymryd â'i swydd. Roedd y Prif Gwnstabl wedi derbyn briff ar yr adolygiad RhGG ac elfennau eraill y cynigion; roedd y cyfarfod cyllideb ar 19 Tachwedd wedi trafod yr holl faterion o amgylch datblygu'r gyllideb, yn cynnwys Proffiliau Gwerth am Arian, Cyfalaf, Cronfeydd wrth gefn a risgiau yn y dyfodol, yn ogystal â chynigion arbedion ac ailfuddsoddi.

6.6 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 20 Tachwedd i drafod cynigion ar gyfer y gyllideb. Cyhoeddwyd ffigyrau grant y Llywodraeth ar 13 Rhagfyr 2018. Trafodwyd cynigion eraill ar ôl y cyhoeddiad ar 21 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm y Prif Swyddog. Datblygwyd y cynigion ychwanegol a chawsant eu trafod mewn cyfarfod arall ar 3 Ionawr 2019 lle cytunwyd ar y cynigion terfynol.

## 7. Dyraniadau Cyllid

7.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2019-20 fel rhan o setliad 2018-19. Fodd bynnag, roedd y setliad yn cynnwys y paragraff canlynol oedd yn gosod bwriad clir i ddarparu grant wastad a'r gallu i gynyddu Treth y Cyngor o £12 yn 2019-20 – '*Ein bwriad yw parhau â grant heddlu wastad yn 2019/20 ac ailadrodd yr un hyblygrwydd praesept er mwyn caniatáu'r Comisiynwyr i godi £1 ychwanegol y mis o braesept lleol yn 2019/20'.*

7.2 Mae'r diffiniad hwn o 'setliad gwastad' yn doriad mewn termau real, gan nad yw'n darparu ar gyfer chwyddiant nac unrhyw ofynion newydd neu ychwanegol sy'n wynebu Gwasanaeth yr Heddlu. Nid yw peidio â chydnabod chwyddiant yn gynaliadwy a bydd yn arwain at leihad parhaus mewn adnoddau sydd ar gael. Mae chwyddiant cyflog wedi bod yn 2% i swyddogion a staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae chwyddiant cyffredinol ychydig dros 2%. Gwnaed y sefyllfa chwyddiant yn llawer gwaeth yn 2019-20 a 2020-21 pan gyhoeddwyd i ddechrau ar 7 Medi 2018, ac yna cadarnhawyd fel rhan o gyhoeddiadau'r Gyllideb, y byddai cyfraniadau Cyflogwr Swyddogion yn cynyddu o 9.7%. Nodir hyn isod.

7.3 Yn rhan o brisiad pensiwn 2016 mae Trysorlys ei mawrhydi wedi cyhoeddi 'cyfarwyddyd' prisiad pensiwn y Sector Cyhoeddus sy'n cynyddu cyfradd gyfrannu'r cyflogwyr o 2019-20 ymlaen ar gyfer cynlluniau pensiwn heb gronfa yn y Sector Cyhoeddus, sy'n effeithio ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu. Y prif newid yw'r gostyngiad i'r Gyfradd Ddisgownt, a ddefnyddir i drosi taliadau pensiwn yn y dyfodol i'r gwerth presennol. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu

barn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar y rhagolygon economaidd cenedlaethol ar hyn o bryd, sy'n adlewyrchu cyfnod penodol o ansicr cyn Brexit. Gostyngwyd y gyfradd ddisgownt o 3.0% i 2.4%, a arweiniodd at gynnydd o 9.7% i gyfradd cyfraniad pensiwn y cyflogwr.

7.4 Y gyfradd bresennol yw 24.2%. Mae'r gyfradd hon eisoes yn cynnwys cyfraniad ychwanegol o 2.9% yn uwch na'r prisiad actiwaraidd yn dilyn penderfyniadau a wnaed yn rhan o'r prisiad blaenorol. Disgwylid i ddechrau mai'r gyfradd newydd fyddai 33.9%, a fyddai'n cael ei gyfyngu i gyfradd gyfwerth o 28% yn 2019-20 trwy ddarparu grant un flwyddyn, a chodi'r swm llawn yn 2020-21. Cynhaliwyd trafodaethau'n genedlaethol rhwng Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys. Yn rhan o'r cyhoeddiad cyllid ar 13 Rhagfyr 2018, cadarnhawyd cyfradd gyfrannu derfynol o 31% (wedi tynnu'r cyfraniad ychwanegol).

7.5 Y gost ychwanegol i HGC fydd £2.1 miliwn yn 2019-20 ac £1.9 miliwn arall yn 2020-21. Mae crynodeb o hyn yn y tabl isod. Mae hyn yn chwyddiant ychwanegol o 1.43% ar gyllideb 2019-20, sydd gyfwerth â chynnydd o 2.78% yn Nhreth y Cyngor.

| | **Actiwaraidd %** | **Gordal %** | **Cyfanswm %** | **Cost 19-20 £'000** | **Cynnydd 19-20 £'000** | **Cost 20-21 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Cyfredol | 21.3 | 2.9 | 24.2 | 12,833 | | |
| Amcan. gwreiddiol | 31.0 | 2.9 | 33.9 | 18,046 | 5,213 | 5,574 |
| Diwygiedig | 31.0 | 0 | 31.0 | 16,503 | 3,670 | 4,000 |
| Grant | | | | | 1,582 | 0 |
| | | | | | | |
| Cost Net | | | | | 2,088 | 4,000 |

7.6 Gwnaed y cyhoeddiad am gyllid 2019-20 ar 13 Rhagfyr 2018. Nid oedd y cyhoeddiad am setliad ariannol wastad fel y flwyddyn flaenorol, ond am gynnydd o 2.1%. Mae hyn yn gynnydd o £1.506 miliwn ar gyfer HGC. Dyma'r cynnydd cyntaf mewn grant ers 2010-11.

7.7 Roedd y setliad hefyd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i'r Heddlu yn Lloegr i gynyddu Treth Band D y Cyngor hyd at £24. Mae hyn hefyd yn uwch na'r ffigwr o £12 o gyhoeddwyd yn flaenorol. Byddai hyn yn rhoi ystod o gynnydd mewn Treth y Cyngor o 9.3% a 21.8% pe byddai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn cynyddu Treth y Cyngor £24. Penderfyniad bob Comisiynwr Heddlu a Throsedd yn unigol yw cynyddu Treth y Cyngor i'r symiau hyn. Yng Nghymru rhaid i Lywodraeth Cymru ddiffinio unrhyw gap ar Dreth y Cyngor, ond ar adeg

ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid ydynt wedi gwneud hynny. Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhagdybio y bydd holl Luoedd yn cynyddu Treth y Cyngor £24 wrth gyfrifo'r cyfanswm ychwanegol posibl sydd ar gael i Luoedd o Braesept Treth y Cyngor o £509 miliwn. Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad B (Llythyr Setliad Dros Dro)

7.8 Yn genedlaethol mae'r Swyddfa Gartref wedi datgan y bydd y cynnydd mewn grant a hyblygrwydd cynyddol yn Nhreth y Cyngor yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael o £813 miliwn. Cafodd hyn ei ddisgrifio yn eu llythyr cyllid fel a ganlyn

***Dyna pam, y byddwn yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gomisiynwyr hyd at £813m, pe byddai'r Comisiynwyr yn defnyddio'u hyblygrwydd â'r praesept yn llawn. Dyma'r cynnydd blynyddol mwyaf ers 2010. Mae hynny yng nghyd-destun cynnydd mewn cyllid heddlu gwrthderfysgaeth a buddsoddiadau mewn troseddau difrifol a threfnedig sy'n golygu cynnydd yng nghyfanswm cyllid yr heddlu yn 2019/20 o tua £970 miliwn, eto, os yw Comisiynwyr yn defnyddio eu hyblygrwydd â'r praesept yn llawn. Rydym ni yn bersonol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan yr heddlu yr adnoddau maent eu hangen.'***

7.9 Fodd bynnag, roedd y cyhoeddiad yn cynnwys pedwar maes blaenoriaeth i yrru effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd, sydd fel a ganlyn

*Yn 2019/20, rydym yn buddsoddi mwy mewn plismona. Rydym angen eich cymorth i sicrhau y caiff ei wario'n dda. Mae hyn yn hynod o bwysig pan fydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar yr Adolygiad o Wariant y flwyddyn nesaf. Felly mae'r setliad cyllid yn gosod pedwar maes blaenoriaeth i yrru effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd y flwyddyn nesaf.*

*1. Ar ran y trethdalwr, mae'r Llywodraeth yn disgwyl gweld arbedion effeithlonrwydd parhaus yn 2019/20 trwy gaffael cyfunol a gwasanaethau a rennir. Rhaid i ni weld dulliau cenedlaethol o gaffael fforensig, cerbydau a chyfarpar sylfaenol megis helmedau. Yn achos fforensig, nid yw hyn am arbedion ariannol, ond er mwyn cydweithio i gynnal marchnad effeithlon sy'n cefnogi anghenion plismona a'r system gyfiawnder droseddol gyfan.*

*2. Disgwyliwn gynnydd mawr i ddatrys yr heriau mewn adnoddau ymchwilio a nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, yn cynnwys recriwtio mwy o dditectifs i fynd i'r afael â'r diffyg. Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i gefnogi'r lluoedd i wneud y newid hwn drwy gyflymu eu cynllun gweithredu ar ymchwiliadau, gan wneud defnydd llawn o'r arloesi a gynigir gan Police Now.*

*3. Gwella cynhyrchiant yn cynnwys defnydd doeth o ddata a galluoedd digidol yn cynnwys gweithio symudol, gyda'r uchelgais o ddarparu £50 miliwn o enillion cynhyrchiant yn 2019/20.*

*4. Ar ben hynny, disgwyliwn i'r lluoedd gynnal ymateb SOC sy'n cynnwys adnabod a rheoli bygythiadau lleol yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol a*

*rhanbarthol. Dylai'r ymateb hwn gael ei adeiladu o gwmpas ymyrryd â bygythiadau SOC lleol ynghyd ag atal, diogelu, partneriaethau ac ymgysylltu â'r gymuned.'*

7.10 Mae'r swm sydd ar gael i blismona'n parhau i gael ei frigdorri, gyda chynnydd arall o £84 miliwn yn 2019-20. Mae'r swm a frigdorrir yn gostwng y grant craidd a dderbynia Gogledd Cymru o £10.6 miliwn, gyda chyfran fechan yn unig o hwnnw'n cael ei dderbyn fel cyllid ychwanegol neu fudd uniongyrchol.

7.11 Er bod y setliad hwn yn ymddangos fel gwelliant ar y blynyddoedd blaenorol, mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun cyflogau cynyddol a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chwyddiant a'r chwyddiant pensiwn ychwanegol hefyd. Ar ben hyn, mae disgwyl y bydd mwy o fuddsoddiadau ac adnoddau'n cael eu neilltuo ar gyfer galluoedd ditectifs, adnoddau troseddau difrifol a threfnedig a galluoedd digidol a symudol.

7.12 Mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Ymddengys bod y Swyddfa Gartref yn derbyn bod cyllid yr Heddlu wedi'i gwtogi gymaint â phosib', ond mae ansicrwydd economaidd ynghlwm â Brexit yn ei gwneud yn anodd darogan faint o adnoddau fydd ar gael. Mae golwg ar osod lefel wastad o gyllid o 2020-21 ymlaen, sy'n welliant ar y toriad o -1% a ragwelid yn y CATC diwethaf.

## 8. Cyllideb 2018/19 i 2022/23

8.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2019-20 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad A.

8.2 Y prif ragdybiaethau fel y CATC blaenorol yw fel a ganlyn:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 2% o fis Medi
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo'n hysbys
- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 7.74% yn 2019-20 a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sy'n gyfystyr â 4.32% yn 2020-21, 4.41% 2021-22, 3.97% 2022-23 a 3.82% yn 2023-24.
- Cynnydd mewn grant o 2.1% yn 2019-20, a setliad gwastad 0% ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2020-21 ymlaen

Mae hyn yn rhoi sefyllfa cyffredinol o

| | Cyllideb Flynyddol 2019-20 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Llinell Sylfaen | 146,466 | 154,264 | 157,972 | 161,696 | 165,440 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwyddiant, yn cynnwys Pensiynau'r Heddlu | 5,223 | 5,124 | 3,475 | 3,781 | 3,988 |
| Twf o ail-fuddsoddi | 2,793 | 1,887 | 656 | 213 | 24 |
| Arbedion | -2,832 | -2,628 | -407 | -250 | -250 |
| Twf parhaol/dros dro ychwanegol | 2,614 | -675 | | | |
| **Gofyniad Cyllidebol** | **154,264** | **157,972** | **161,696** | **165,440** | **169,202** |
| | | | | | |
| Cyfanswm grant | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -81,030 | -84,738 | -88,462 | -92,206 | -95,968 |
| **Cyfanswm** | **-154,264** | **-157,972** | **-161,696** | **-165,440** | **-169,202** |
| | | | | | |
| **Balans** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Balans Blynyddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 7.74% | 4.32% | 4.14% | 3.97% | 3.82% |
| **Cynnydd mewn £** | 19.98 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

8.3 Mae'r gyllideb a osodwyd wedi'i mantoli dros 5 mlynedd; fodd bynnag, mae ansicrwydd sylweddol o 2020-21 ymlaen. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod effaith cynnydd Pensiynau Swyddogion yr Heddlu dros ddwy flynedd. Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd drwy'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol ac adolygiadau eraill a nodi lle sydd orau i ail-fuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd hyn i fynd i'r afael â bylchau yn y Gwasanaeth a'r galw sydd wastad yn newid y mae Heddluoedd yn ei wynebu. Mae cynlluniau i gyflwyno'r newidiadau hyn dros y ddwy flynedd nesaf. Ar ben hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl y bydd adnoddau ychwanegol i dargedu niferoedd o dditectifs a throseddau difrifol a threfnedig. Mae hyn wedi'i nodi isod o ran effaith gyffredinol chwyddiant, y cynllun arbedion a'r cynllun ail-fuddsoddi ac ym mhle mae cynlluniau i neilltuo adnoddau ychwanegol. Mae hyn yn gosod cynllun cadarn dros y ddwy flynedd nesaf sy'n mynd i'r afael â phroblem y Pensiynau yn ogystal â'r cynnydd o ran galw yn effeithlon ac effeithiol.

8.4 Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2% o fis Medi 2018 ymlaen ar gyfer Swyddogion a Staff, a rhagwelir y bydd dyfarniad cyflog yn 2% bob blwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant cyflog yn 2019-20 yn £1.8 miliwn. Yn ogystal â hyn, bydd angen cynnwys cynnydd o £2 filiwn ar gyfer cyfraniad Pensiwn Cyflogwr Swyddogion Heddlu. Amcangyfrifir chwyddiant cyffredinol ar darged Banc Lloegr, sef 2%. Fodd bynnag, mae'r holl linellau cyllidebau'n cael eu hadolygu i asesu a yw hyn yn ormodol neu'n ddigonol (gan edrych ar wariant a rhagdybiaethau'r gorffennol). Mae cynnydd sylweddol mewn costau ynni yn 2019-20 gan fod pris olew ar y pwynt uchaf ers 4 blynedd, prisiau carbon a glo ar eu pwynt

uchaf ers 10 mlynedd, y bunt yn wan, taliadau rhwydweithio a chapasiti a newidiadau i daliadau amgylcheddol. Mae crynodeb o'r costau chwyddiannol a'u heffaith ar Dreth y Cyngor i'w weld isod.

| | £000 | Cynnydd cyfwerth yn Nhreth y Cyngor £ | | Cynnydd cyfwerth yn Nhreth y Cyngor % | Chwyddiant cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwyddiant cyflogau | 1,823 | £ | 6.26 | 2.42% | 1.24% |
| Chwyddiant prisiau | 1,312 | £ | 4.50 | 1.74% | 0.90% |
| Pensiwn yr Heddlu | 2,088 | £ | 7.17 | 2.78% | 1.43% |
| **Cyfanswm chwyddiant** | **5,223** | **£** | **17.93** | **6.94%** | **3.57%** |

8.5 Mae hyn yn llawer uwch na'r blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi ei danddatgan gan fod grant un flwyddyn o £1.582 miliwn wedi cael ei ddarparu ar gyfer rhan o'r cynnydd mewn Pensiwn sy'n gyfystyr â chynnydd chwyddiant ychwanegol o 1.1%. Bydd chwyddiant cyflog yn uwch yn y blynyddoedd i ddod oherwydd costau pensiwn cynyddol. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 6.94% i ddarparu ar gyfer chwyddiant yn unig pe na bai cynnydd yn y grant cyffredinol.

8.6 Mae cynnydd ychwanegol ar gyfer Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEQF) a chyllid cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn yr amcangyfrifon o 2020-21 ymlaen. Mae'r rhain wedi eu nodi yn y CATC ac yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn yn barod ar gyfer cyllideb 2020-21.

8.7 Mae grantiau wedi cynyddu ar gyfer 2019-20, fodd bynnag, nid oes unrhyw arwyddion y bydd hyn yn parhau yn 2020-21. Rhagdybir y byddent yn parhau wedi rhewi yn y blynyddoedd i ddod. Mae amcangyfrif o gynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu wedi ei gynnwys yn y ffigyrau.

8.8 Roedd cylch cynllunio 2017-18 yn cynnwys adolygiadau gwasanaeth oedd yn ymdrin â 41% o'r Heddlu sef gwariant staff o £50 miliwn. Roedd y rhain yn cynnwys adnoddau patrolio a'r cysylltiad â'r Uned Adnoddau Rheoli, adnoddau ymchwilio, plismona ffyrdd, fforensig, y ddalfa, AD, prosiectau a gwasanaethau glanhau. Roedd yr adolygiadau hyn ar gamau gwahanol, mae'r Uned Adnoddau Rheoli wedi'i gweithredu ac mae canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad Ymchwiliadol wedi'u hadrodd. Roedd elfennau gweithredol yr adolygiadau cyfredol, ynghyd â'r elfennau ychwanegol wedi dod ynghyd o fewn Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) yn ystod 2018-19.

8.9 Cynhaliodd y RhGG adolygiad ar 47% o'r Heddlu yn seiliedig ar dystiolaeth; arweiniwyd hwn gan dîm o swyddogion gweithredol gyda chefnogaeth yr Uned Gallu a Galw, yr Adran Gyllid, Adnoddau Dynol ac eraill. Y meysydd dan sylw oedd

- **Adolygiad Ymchwiliadol –** Roedd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar yr adnoddau ymchwiliadol gofynnol yr oedd eu hangen ar lefel leol i ymdrin â newid yn y galw. Y cynnig yw cynyddu'r

adnoddau sydd ar gael o 32; bydd y rhain yn gyfuniad o adnoddau ditectif ac Ymchwilwyr Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu. Mae newid yn y galw wedi arwain at gynnydd o 30% i 50% o droseddau y mae angen 100 diwrnod neu fwy i ymchwilio iddynt.

- **Plismona Cymdogaethau –** Mae buddsoddiad HGC mewn timau plismona cymdogaethau i'w weld yn uwch na Heddluoedd eraill o fewn y proffiliau gwerth am arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei mawrhydi, a HGC yw'r uchaf o ran niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fesul 1000 o'r boblogaeth. Casglodd yr adolygiad y gellid cynnal darpariaeth y gwasanaeth drwy gwtogi 59 o Swyddogion Cymorth Cymunedol, 21 o Heddweision a 6 Sarsiant dros ddwy flynedd.

- **Adolygiad Heddweision a Sarsiantiaid Gwasanaeth Lleol yr Heddlu** – roedd yr adolygiad yn edrych ar ffiniau ardaloedd, patrymau sifftiau a chyfraddau sarsiantiaid i heddweision a'r ffordd orau o ymdrin â newid yn y galw. Y canlyniad oedd parhau â'r opsiwn o 10 ardal (yn hytrach na'r un am 8 ardal) a newid y patrymau sifftiau i opsiwn 4 tîm. Bydd hyn yn golygu bod angen 5 sarsiant a 4 heddwas yn ychwanegol.

- **Adolygiad ar Ddalfeydd** – Roedd yr adolygiad yn edrych ar lefelau staffio a phatrymau sifftiau ac roedd rôl newydd penderfynwyr yng ngwasanaeth yr Heddlu wedi'i chynnwys. Bydd cwtogiad cyffredinol o 3 swydd, ond mae rôl y penderfynwr yng Ngwasanaeth yr Heddlu wedi'i chynnwys yn y niferoedd sefydledig.

- **Uned Rheoli Digwyddiadau** – Roedd yr adolygiad yn ystyried sut roedd digwyddiadau'n cael eu rheoli, sut y gellid defnyddio'r system uwchraddio i leihau galw a diffinio cyfrifoldebau o ran rheoli digwyddiadau'n glir er mwyn osgoi ailadrodd. Bydd ei gweithredu'n golygu arbed 12 swydd.

8.10 Mae'r holl adolygiadau uchod yn gysylltiedig â'i gilydd; roedd hyn wedi'i ystyried, yn ogystal â chysylltiadau â meysydd eraill yn rhan o'r Rhaglen. Mae llawer o waith ymgynghori wedi'i wneud ac mae'r ymgynghoriad terfynol ar batrymau sifftiau'n dal i fynd. I ddechrau, byddai'r Rhaglen yn cael ei gweithredu dros dair blynedd ond mae bellach wedi'i chynllunio dros ddwy flynedd. Mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y cynllun arbedion cyffredinol a'r cynlluniau ail-fuddsoddi isod.

8.11 Daeth adolygiadau eraill sydd ar fynd a'r adolygiad blynyddol o'r gyllideb o hyd i £1.095 miliwn o arbedion eraill yn 2019-20. Ceir hyd i arbedion yn y dyfodol yn rhan o waith yr Uned Galw a Gallu gyda'r Prosiectau Digidol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Mae'r cynllun arbedion wedi'i gadarnhau ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r cynllun drafft ar gyfer y dyfodol i'w weld yn y tabl isod.

| Arbedion | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **RhGG/Uned Galw a Gallu** | | | | | |
| Plismona Cymdogaethau | 1,638 | 1,493 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ddalfa | -73 | 82 | 82 | 0 | 0 |
| Rheoli digwyddiadau | 172 | 222 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiadau Digidol/Uned Galw a Gallu | 0 | 500 | 250 | 250 | 250 |
| **Meysydd adolygu eraill** | | | | | |
| Contractau TG | 0 | 75 | 75 | 0 | 0 |
| Ystadau yn cynnwys PFI/Glanhau | 425 | 175 | 0 | 0 | 0 |
| Fforensig | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caffael | 20 | 80 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion Adolygu'r Gyllideb - Atebolrwydd cyflogwr/y cyhoedd | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adran Gweinyddu Cyfiawnder – 2 Trwyddedu arfau tanio | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad Cyllideb | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **2,832** | **2,628** | **407** | **250** | **250** |

8.12 Yn ystod y cylch cynllunio daeth yn amlwg bod technoleg ddigidol yn faes sydd angen buddsoddi ynddo, oherwydd y gofynion cenedlaethol a'r manteision mae technoleg yn ei ddarparu. Bydd hyn yn golygu uwchraddio'r caledwedd presennol, a newid prosesau busnes er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision a fydd, yn eu tro, yn darparu arbedion effeithlonrwydd ychwanegol. Mae datblygiadau digidol wedi'u rhannu'n 3 maes: symudedd a gallu, rheoli galw a thechnoleg i gynorthwyo gyda chasglu cudd-wybodaeth. Yn ychwanegol at y rhain, mae prosiectau sy'n ymwneud â Thrawsnewid y Gweithlu, Cydweithio a Phartneriaethau a Datblygu Gweithredol a Busnes angen buddsoddiadau ychwanegol yn y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a pharhad yr Uned Galw a Gallu. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyffredinol o £1.480 miliwn yn 2019-20; a £0.755 miliwn o hwnnw'n fuddsoddiad cylchol mewn technoleg yn seiliedig ar gytundebau cenedlaethol a symud tuag at gytundeb trwyddedu ar gyfer meddalwedd Microsoft (Rhaglen Alluogi Genedlaethol) a £0.725 miliwn am staff Rheoli Prosiectau a Chefnogi (2 TG; 5 Swyddog Rheoli Prosiectau a 6 yn yr Uned Galw a Gallu).

8.13 Nodwyd meysydd twf eraill i'w cyllido drwy ail-fuddsoddi arbedion fel cyfraniadau at gyrff Rhanbarthol a Chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad newydd tuag at Dîm Cydweithio Cymru Gyfan a chyfraniadau a thimau Cydweithio Gogledd-orllewin Prydain. Nodwyd gofynion ychwanegol hefyd o fewn Darpariaethau Meddygol Dalfeydd, cefnogaeth Camerâu'r Corff a Gwiriadau. Nodir y symiau a ail-fuddsoddwyd yn y tabl isod. Mae'r ychwanegiadau hyn o £2.793 miliwn yn cael eu hariannu o'r arbedion effeithlonrwydd y daethpwyd o hyd iddynt, sef £2.832 miliwn.

| Twf a gyllidir drwy ail-fuddsoddi arbedion | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | | | | | |
| RhGG - Perfformiad | 86 | 428 | 0 | 0 | 0 |
| RhGG - Adolygiad ymchwiliadol | 797 | -25 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| PEQF | 21 | 779 | 656 | 213 | 24 |
| Benthyca cyfalaf | 0 | 400 | 0 | 0 | 0 |
| TG - Rhaglen alluogi genedlaethol/digideiddio | 877 | 305 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddfa Rheoli Rhaglenni | 338 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Galw a Gallu | 265 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad o Wasanaethau Meddygol - Darpariaeth yn y ddalfa/Nyrsys Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol | 123 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Atal troseddau - Datrys problemau | 58 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad i gyrff - Cymru gyfan, Gogledd-orllewin Prydain, Polisi Arfau Tanio, ac ati | 170 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall - cefnogaeth camerâu'r corff a gwiriadau | 57 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,793** | **1,887** | **656** | **213** | **24** |

8.14 **Ychwanegedd -** Mae setliad y gyllideb gan y Swyddfa Gartref eleni ychydig yn well na'r disgwyl. Yn ychwanegol at hyn, mae'r llythyr sy'n cyd-fynd ag o gan y Swyddfa Gartref yn rhoi cefnogaeth gref i Heddluoedd geisio derbyn cymaint o arian ag y gallant drwy braesept Treth y Cyngor. Awgrymir y dylai lluoedd chwilio i gynyddu praesept y dreth gyngor hyd at £24 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D. Credir y bydd y mwyafrif o'r lluoedd yn ceisio gwneud hynny gyda chefnogaeth eu Comisiynwyr a'r Paneli Heddlu a Throsedd. Cydnabyddir hefyd bod Heddlu Gogledd Cymru eisoes yn elwa o gefnogaeth ariannol gref gan y gymuned leol. Bydd cynyddu Treth y Cyngor £19.98 yn hytrach na £24 yn caniatáu buddsoddiadau cyflawnadwy o £2.6 miliwn i gefnogi amcanion y Comisiynydd a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. I ddod i'r casgliadau hyn datblygwyd ystyriaeth o broffiliau gwerth am arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, data perfformiad yr Heddlu, dealltwriaeth o'r galw am gapasiti gan y RhGG, Datganiad Rheoli'r Heddlu a barn broffesiynol arweinwyr y gwasanaeth a'u timoedd. Drwy ymrwymo £0.675 miliwn o hyn tuag wariant un tro, bydd hyn yn galluogi i gyllideb 2020-21 gael ei mantoli yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod. Bydd hyn yn cynyddu nifer y Swyddogion o 34 a Staff o 6, felly bydd angen recriwtio 90 o swyddogion newydd yn 2019-20 yn hytrach na 54 fel y cynlluniwyd.

8.15 Y meysydd ar gyfer buddsoddi a gytunwyd arnynt yw

- **Cynyddu capasiti a gallu rhagweithiol gweithredol**
  **Nod –** Sefydlu Tasglu a arweinir yn ganolog. Darparu capasiti deinamig ychwanegol i fynd i'r afael â throsedd yn rhagweithiol a chyflawni deilliannau trawsnewidiol tuag at flaenoriaethau gweithredol.
  **Manteision -** Darpariaeth o adnodd deinamig a hyblyg o amgylch trosedd lefel 1/lefel 2 a gwella sgiliau i gefnogi rhagweithgaredd. Capasiti i weithio'n uniongyrchol a rhagweithiol yn erbyn unigolion penodol, safleoedd a lleoliadau a ganfyddir drwy fentrau datrys problemau gwell ar draws gogledd Cymru.

- **Cynyddu capasiti a gallu i ddelio â throseddau difrifol a threfnedig**

**Nod –** Cynyddu capasiti i ddelio â throseddau difrifol a threfnedig i ganolbwyntio ar weithrediadau i ddiwallu soffistigeiddrwydd ac amlder troseddau difrifol, rhwydweithiau cyflenwi cyffuriau a llinellau sirol.

**Manteision -** Gallu cynyddol i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Bydd mwy o gapasiti yn galluogi'r uned troseddau difrifol a threfnedig wella ei heffaith gyffredinol ar flaenoriaeth yr heddlu a sicrhau bod tactegau a gweithredoedd yn cael eu cwblhau i gyflawni gwell perfformiadau.

- **Cynyddu capasiti un pwynt cyswllt ffôn a dadansoddol**
  **Nod –** Gwella capasiti ar gyfer nodi targedau a chasglu cudd-wybodaeth drwy ddata cyfathrebu.
  **Manteision -** Bydd datblygu gwybodaeth a chudd-wybodaeth gywir drwy'r mecanwaith yn helpu i gwtogi ymholiadau a sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu targedu'n gywir.

- **Datblygu a gweithredu tîm unigolion ar ffo newydd**
  **Nod –** Canfod ac arestio unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt am amrywiaeth eang o droseddau ac a gredir eu bod yng Ngogledd Cymru.
  **Manteision –** Dod ag unigolion y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt i gyfiawnder, bydd y rhagolwg o gael eu dal a'u cadw yn y ddalfa yn lleihau'r tebygrwydd i unigolion y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt ymwreiddio mewn cymunedau yng ngogledd Cymru.

- **Cynyddu capasiti ar gyfer archwiliadau fforensig digidol**
  **Nod –** Galluogi'r Uned Fforensig Ddigidol i gynnal y cytundebau lefel gwasanaeth presennol ar draws y sefydliad a pharhau i gefnogi ymchwilwyr mewn trosedd difrifol a chymhleth.
- **Manteision –** Gan fod yr Uned Fforensig Ddigidol yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i Dîm Ymchwiliadau ar-lein yr Heddlu a holl ymchwiliadau, lle mae cynnydd blynyddol mewn galw a chynnydd mewn achosion cymhleth sy'n gysylltiedig â materion diogelu, bydd cynyddu'r nifer o staff yn yr uned fforensig ddigidol yn sicrhau bod gostyngiad yn y tebygolrwydd o oedi wrth brosesu ymchwiliadau i droseddau. Bydd hefyd yn lleihau'r angen i roi contractau yn allanol ac oedi gwaith fforensig digidol pwysig.

- **Cynyddu'r nifer o swyddogion cam-drin domestig**
  **Nod –** Galluogi swyddogion cam-drin domestig fodloni'r cynnydd mewn galw a lleihau gwendidau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr cam-drin domestig**.**
  **Manteision** – Mae swyddogion cam-drin domestig yn darparu cefnogaeth werthfawr, atgyfeiriadau ac yn cydweithredu'n agos â sefydliadau partner er mwyn cynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig. Mae data presennol yn dangos cynnydd mewn trosedd ddomestig gyda chyfran fawr o'r dioddefwyr angen cefnogaeth uniongyrchol gan swyddogion cam-drin domestig. Mae HGC hefyd yn gweithio i ganllawiau Bywydau Mwy Diogel felly ystyrir bod cynyddu'r nifer o swyddogion cam-drin domestig yn hanfodol er mwyn parhau i ddarparu'r un lefelau gwasanaeth presennol.

- **Cynyddu nifer o Swyddogion yr Uned Troseddwyr Rhyw a Thrais**
  **Nod –** Galluogi swyddogion yr Uned Troseddwyr Rhyw a Thrais i ddarparu rheolaeth gadarn o'r cohort presennol o droseddwyr a chefnogi gwaith datrys problemau ataliol o amgylch y rhai sy'n peri'r risg mwyaf i gymunedau.

  **Manteision –** Bydd cynyddu nifer o swyddogion yr uned yn rhoi cadernid ar gyfer y galw cynyddol mewn rheoli troseddwyr a'r disgwyliad i wneud mwy o waith ataliol gyda'r rhai a asesir o fod yn risg uchel a risg uchel iawn.

- **Cynyddu swyddogaethau Onyx a darparu gallu cam-fanteisio troseddol ar blant**
  **Nod -** Datblygu'r uned Onyx i Uned Camfanteisio Plant er mwyn canfod dioddefwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-fanteisio troseddol ar blant, ymgysylltu â nhw a'u cefnogi yn defnyddio dull amlasiantaeth**.**

  **Manteision -** Bydd datblygu'r uned yn darparu gwell cefnogaeth ac ymgysylltiad gyda dioddefwyr cam-fanteisio troseddol ar blant, sydd yn faes heriol ar hyn o bryd. Bydd mwy o gapasiti yn proffesiynoli a gwella'r gefnogaeth a ddarperir i rai o'r plant mwyaf diamddiffyn o fewn ein cymunedau ac yn dod â datrysiad amlasiantaeth ynghyd i fynd i'r afael â materion cymhleth cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-fanteisio troseddol ar blant.

- **Hwylusydd Cydlynu a Thasg Amlasiantaeth (MATAC)**
  **Nod -** Cydlynu, hwyluso a goruchwylio cyfarfodydd amlasiantaeth ar gyfer Cam-Drin Domestig**.**

Figures may not sum due to rounding

# Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2019-20 i 2023-24

Ionawr 2019

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunwyd arnynt gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Mae'r CATC hwn yn gosod sefyllfa ariannol a gweithredol heriol dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r gyllideb wedi'i mantoli ac mae'r gwasanaeth wedi'i gynnal dros y cyfnod o galedi, gan gynnig sefyllfa gadarn ar gyfer y gyllideb sylfaenol a'r gronfa wrth gefn. Fodd bynnag, bydd y newid parhaus mewn galw a'r pwysau newydd o ran costau yn gofyn am fwy o arbedion effeithlonrwydd a buddsoddiadau.

1.3 Mae'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) wedi adolygu 47% o'r Heddlu gan ganolbwyntio ar blismona gweithredol a'r cydbwysedd rhwng plismona cymdogaethol, ymateb a gwaith ymchwilio. Mae hyn wedi ein galluogi i ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd i fynd i'r afael â gofynion cyfredol oherwydd newid yn y galw o fewn cyllidebau 2019-20. Mae arbedion effeithlonrwydd eraill wedi'u canfod yng ngweddill yr Heddlu. Mae mwy o newid nag erioed o'r blaen, yn enwedig o ran datblygiadau digidol y bydd angen buddsoddi i'w rheoli a'u darparu. Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr Heddlu hefyd wybod am gynnydd sylweddol yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwr swyddogion dros y ddwy flynedd nesaf sydd wedi effeithio'n sylweddol ar chwyddiant cyffredinol yn y gyllideb. Roedd setliad y Swyddfa Gartref yn well na'r disgwyl ac roedd y lefel ddisgwyliedig o gynnydd yn Nhreth y Cyngor gan y Swyddfa Gartref wedi cynyddu o £12 i £24, fodd bynnag, roedd y ddau gynnydd hyn yn dod â gofynion ychwanegol ynglŷn ag effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd i wella gwasanaethau i'r cyhoedd mewn pedwar maes. Y meysydd hynny yw: cynyddu adnoddau ditectifs, mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, defnyddio data digidol a symudol a chaffael cydweithredol. Gweithredir ar y blaenoriaethau hyn gyda'r adnoddau sydd ar gael a byddant yn cael eu gwella drwy fuddsoddiadau eraill sydd yn y CATC hwn.

1.4 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ystyried yr holl opsiynau ac wedi argymell cynnydd yn Nhreth y Cyngor, sy'n creu cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd i drethdalwyr lleol a sicrhau bod gan wasanaeth yr Heddlu gyllid digonol. Mae wedi cynnig cynnydd yn Nhreth y Cyngor o £19.98, sy'n sylweddol is na lefel y Swyddfa Gartref, sef £24. Mae'r cynnig hwn yn mantoli'r gyllideb dros y ddwy flynedd nesaf, yn mynd i'r afael â'r costau pensiwn ychwanegol ac yn ail-fuddsoddi £2.8 miliwn o arbedion effeithlonrwydd i wella'r ddarpariaeth mewn meysydd blaenoriaeth fel sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Cartref.

### 1.2 Nod

Nod y papur hwn yw manylu sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau i gynnal cyllideb fantoledig yn y tymor canolig a hwy, gan gynnal a gwella perfformiad a sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.


1.3 **Cefndir**

Mae Rhaglen Cyni Cyllidol y Llywodraeth, a gychwynnodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Y gostyngiad ariannol gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllidebau'r Heddlu dros 4 blynedd (2011-12 hyd at 2014-15) yn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) 2010 oedd 12%; y gostyngiad gwirioneddol mewn grantiau hyd ddiwedd 2018-19 fydd 22.2%. Mewn termau real (gan gyfrif chwyddiant), mae hwn wedi'i asesu'n annibynnol fel toriad o 32.2%.

1.4 Mae cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi amrywio rhwng 2% a 4% dros yr un cyfnod. Arweiniodd effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £31.104 miliwn o doriadau i'r cyllidebau dros 8 mlynedd. Mae hyn gyfwerth â gostyngiad ariannol o 21% yng nghyllideb 2010-11 o £148.035 miliwn cyn cynni ariannol. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau | £4.678 miliwn | £6.016 miliwn | £4.634 miliwn | £4.325 miliwn | £4.448 miliwn | £2.838 miliwn | £2.686 miliwn | £1.479 miliwn | £31.104 miliwn |

1.5 Mae'r siart isod yn dangos yn gryno ymhle y gwnaed yr arbedion.




1.6 Cynhaliodd y Llywodraeth ddau adolygiad sylweddol yn ystod haf 2015 gyda'r bwriad o bennu lefel grantiau'r Llywodraeth ar gyfer plismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn Adolygiad Gwariant 2015 (AG2015) edrychwyd ar ddyraniad cyllideb pob un o Adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys y cyfanswm oedd ar gael ar gyfer plismona. Arweiniodd canlyniad yr adolygiad gwariant hwnnw at y toriad o 0.6% i ddyraniadau grant Heddluoedd yn 2016-17, gydag ymrwymiad i gyllid y dyfodol gael ei osod ar lefel

a fydd yn golygu nad yw Heddluoedd yn wynebu toriadau ariannol ar yr amod bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn codi Treth y Cyngor 2% yn ôl y disgwyl. Disgwylid i hyn yn arwain at doriad tebyg yn 2017-18 i'r hynny a gafwyd yn 2016-17; ond bu i'r Swyddfa Gartref gynyddu'r toriadau i grantiau'r Heddluoedd i 1.4% yn 2017-18, gan gadw'r symiau ychwanegol yn ganolog yn y Swyddfa Gartref. Darparodd y Swyddfa Gartref setliad cyson yn 2018-19 gan newid y lefel ddisgwyliedig o Dreth y Cyngor i £12, a fyddai'n golygu na fyddai gostyngiad ariannol i'r Heddluoedd o'i weithredu.

1.7 Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn 2015-16. Mae'r fformiwla'n pennu sut mae'r Swyddfa Gartref yn rhannu cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng yr ardaloedd plismona. Cafodd yr adolygiad o'r Fformiwla ei ohirio ar ôl i Heddluoedd godi materion o ran cywirdeb y data a ddefnyddiwyd yn y fformiwla arfaethedig. Mae'r Llywodraeth yn cynnal adolygiad o wariant yn 2019-20 gyda'r bwriad o *'osod cyllidebau hirdymor i'r Heddlu ac ystyried sut mae dyrannu adnoddau'n deg rhwng yr heddluoedd'*. Nid yw'n eglur a fydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r fformiwla gyllid.

## 2. Y Broses Gynllunio

2.1 Mae'r broses o ganfod, cytuno ar a gweithredu arbedion yn rhan o'r drefn arferol. Yn ogystal, cynhaliwyd y Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) a oedd yn adolygiad sylweddol o adnoddau gweithredol a ganolbwyntiai ar blismona cymdogaethol, cadw pobl yn y ddalfa, adnoddau ymchwilio, rheoli digwyddiadau a phennu cwnstabliaid a sarsiantiaid. Mae'r broses gyffredinol yn cael ei rheoli gan y Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS). Eleni, ystyriodd y Bwrdd y cynllun arbedion a'r ceisiadau ail-fuddsoddi gan roi ystyriaeth i'r adolygiadau a gynhaliwyd. Ar ben hynny, bu adolygiad blynyddol o gyllidebau cyflogau; cynhaliwyd ymarfer cyllidebu sylfaen sero ar gyllidebau TG, cyfleusterau, y fflyd ac elfennau o'r gyllideb cyflenwadau a gwasanaethau er mwyn cadarnhau'r arbedion yn y cynllun ac er mwyn ceisio canfod arbedion eraill.

2.2 Rheolwyd y broses drwy ddau gyfarfod cyllidebu penodol a gynhaliwyd fis Hydref a mis Tachwedd. Roedd y RhGG wedi adrodd ei chanfyddiadau i'r Prif Swyddogion fis Gorffennaf, cyn ymgynghori yn yr ardaloedd dan sylw a'r Heddlu ym mis Awst, ac adrodd yn ôl wrth y BCS yn rhan o bennu cyllideb ym mis Hydref a mis Tachwedd.

2.3 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn. Wrth ddatblygu'r CATC hwn, ystyriwyd y canlynol:

- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Plismona ac yng Nghynllun Gweithredu'r Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd gyfredol
- Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidol am y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflog

- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a’u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a balansau
- Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

2.4 Roedd cyfarfod cyntaf y gyllideb ar 22 Hydref yn canolbwyntio ar yr adolygiad o’r RhGG, ceisiadau ail-fuddsoddi, datblygu'r Strategaeth Ddigidol ac Ailddatgan a diweddaru gweithredu Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu. Gwnaed gwaith ychwanegol ar ôl y cyfarfod ym mis Hydref i lunio cyllideb ddrafft derfynol.

2.5 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a’u cynrychiolwyr ar 20 Tachwedd i drafod cynigion ar gyfer y gyllideb. Cyhoeddwyd ffigyrau grant y Llywodraeth ar 13 Rhagfyr 2018. Trafodwyd cynigion eraill ar ôl y cyhoeddiad ar 21 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm y Prif Swyddog. Datblygwyd y cynigion ychwanegol a chawsant eu trafod mewn cyfarfod arall ar 3 Ionawr 2019 lle cytunwyd ar y cynigion terfynol.

2.6 Mae’r adrannau canlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran refeniw, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

## 3. Cyllideb 2018-19

3.1 Ni welwyd cynnydd na thoriad i gyllid gan y Llywodraeth yn 2018-19; cynyddwyd Treth y Cyngor 3.58%. Roedd cyfanswm y gyllideb, sef £146.467 miliwn, yn gynnydd ariannol o 2.27% ar y flwyddyn flaenorol. Er mwyn mantoli cyllideb 2018-19, gwnaed £1.479 miliwn o doriadau. Mae’r rhain ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant yn y gyllideb wreiddiol o £0.557 miliwn (0.38% o'r gyllideb), yn bennaf oherwydd trosiant o fewn cyllidebau staffio. Mae manylion y toriadau isod:

| Cynllun Arbedion 2018-19 | 2018-19 |
|---|---|
| | £000 |
| Contractau TG | |
| Cyllid ac Adnoddau | 19 |
| Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 450 |
| Dyfodol Cyfathrebu | 71 |
| Fforensig | 25 |
| Contract Fforensig | 275 |
| Adolygiad o Ddarpariaeth Feddygol yr Heddlu | 75 |
| Contractau caffael | 40 |
| Cyfandaliad Ymddeol Staff yr Heddlu | 70 |
| Adolygiad o’r Gyllideb | 250 |
| Disodli Niche | 100 |
| Lleihau Arolygon | 34 |

| | |
|---|---|
| **Trwyddedau Oracle** | 44 |
| **Arbedion** | 1,453 |

3.2 Mae costau ychwanegol wedi'u datrys yn ystod y flwyddyn; bu cynnydd uwch na'r disgwyl i gostau ynni a nifer uwch na gyfrifwyd ar eu cyfer o ymddeoliadau oherwydd salwch. Mae'r ddau beth hyn wedi'u rheoli yn y gyllideb flynyddol. Mae'r galw ar y gronfa at raid ar gyfer Digwyddiadau Mawr wedi bod yn sylweddol is na 2017-18.

3.3 Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub ei mawrhydi (AHGTAEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; yr arbedion a wnaed eisoes; a'r arbedion sydd eto i'w gwneud. Roedd gofyn i'r Heddlu lunio Datganiad Rheoli'r Heddlu am y tro cyntaf erbyn Mai 2018 yn rhan o broses AHGTAEM. Mae'r Datganiad Rheoli'n nodi'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol a bylchau posib'. Mae hwn wedi'i ddefnyddio'n rhan o'r adolygiad RhGG a'r broses gynllunio. Mae amseriad yr adolygiad AHGTAEM wedi'i newid yn rhan o'r broses hon ac mae disgwyl yr archwiliad nesaf ym mis Ebrill 2019 ac felly nid oes adolygiad llawn wedi'i gynnal ers y CATC diwethaf.

3.4 Mae adolygiadau '*Valuing the Police*' AHGTAEM wedi eu hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y cwestiwn cyffredinol mewn perthynas ag effeithlonrwydd a osodwyd gan AHEM yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?' gyda'r diffiniad o 'effeithlonrwydd' fel a ganlyn: 'bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.' Y tri chwestiwn sylfaenol i'r asesiad yw:

1. Pa mor dda mae'r heddlu'n deall y galw sydd arno?
2. Pa mor dda mae'r heddlu'n defnyddio ei adnoddau?
3. Pa mor dda mae'r heddlu'n cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol?

3.5 Y farn gyffredinol yn adolygiad 2017 oedd bod;

*'Heddlu Gogledd Cymru'n dda am gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau, ac mae wedi cynnal perfformiad yn sefydlog ers ein harolwg effeithiolrwydd yn 2016.'*

Gellir gweld yr asesiad llawn ar
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-2017/north-wales/

3.6 Gwnaeth SAC y sylwadau canlynol ar eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2018:

*'Rwy'n fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Cyngor Sir drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau'*

Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol ar:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Information/Publication-Scheme/What-we-spend/Audit/Annual-Audit-Letter-2017-18.pdf

3.7 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda wrth wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ond cytunodd AHGTAEM â dadansoddiad yr Heddlu bod cydweddu adnoddau'r dyfodol â'r galw a ragwelir yn y dyfodol yn faes y mae angen ei ddatblygu, ac aethpwyd i'r afael â hyn yn rhan o'r broses gynllunio eleni.

**4. Dyraniadau Cyllid**

4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2019-20 fel rhan o setliad 2018-19. Fodd bynnag, roedd y setliad yn cynnwys y paragraff canlynol yn nodi bwriad clir i ddarparu grant cyson a'r gallu i gynyddu Treth y Cyngor £12 yn 2019-20 – *'ein bwriad yw cynnal grant heddlu cyson ar y cyfan yn 2019/20 a rhoi'r un hyblygrwydd praesept eto i ganiatáu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd godi £1 y mis yn ychwanegol o braesept lleol yn 2019/20'*. Yn seiliedig ar hyn, roedd CATC 2018 yn cyfrif cynnydd grant cyson a £12 o gynnydd Treth y Cyngor yn unol â disgwyliadau'r Swyddfa Gartref. Mae rhagdybiaeth o doriad o -1% yn y grant wedi'i wneud ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

4.2 Mae'r diffiniad hwn o 'setliad cyson' yn doriad mewn termau real, gan nad yw'n darparu ar gyfer chwyddiant nac unrhyw ofynion newydd nac ychwanegol ar Wasanaeth yr Heddlu. Nid yw peidio â chydnabod chwyddiant yn gynaliadwy a bydd yn arwain at leihad parhaus mewn adnoddau. Mae chwyddiant cyflog wedi bod yn 2% i swyddogion a staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae chwyddiant cyffredinol ychydig dros 2%. Gwnaed y sefyllfa chwyddiant yn sylweddol waeth ar gyfer 2019-20 a 2020-21 pan gyhoeddwyd i ddechrau ar 7 Medi 2018 ac y cadarnhawyd wedyn yn rhan o gyhoeddiadau'r Gyllideb y byddai cyfraniadau cyflogwr y swyddogion yn cynyddu 9.7%. Mae manylion hyn isod.

4.3 Yn rhan o brisiad pensiwn 2016, cyhoeddodd Trysorlys ei mawrhydi 'gyfarwyddyd' prisiad pensiwn y Sector Cyhoeddus sy'n cynyddu cyfradd gyfrannu'r cyflogwyr o 2019-20 ymlaen ar gyfer cynlluniau pensiwn heb gronfa yn y Sector Cyhoeddus, sy'n effeithio ar Gynllun Pensiwn yr Heddlu. Y prif newid yw'r gostyngiad i'r gyfradd ddisgownt, sy'n cael ei defnyddio i drosi taliadau pensiwn yn y dyfodol i'r gwerth heddiw. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu barn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar y rhagolygon economaidd cenedlaethol ar hyn o bryd, sy'n adlewyrchu cyfnod penodol o ansicr cyn Brexit. Gostyngwyd y gyfradd ddisgownt o 3.0% i 2.4%, a arweiniodd at gynnydd o 9.7% i gyfradd cyfraniad pensiwn y cyflogwr.

4.4 Y gyfradd ar hyn o bryd yw 24.2%, sydd eisoes yn cynnwys cyfraniad ychwanegol o 2.9% yn uwch na'r prisiad actiwaraidd yn dilyn penderfyniadau a wnaed yn rhan o'r prisiad blaenorol. Disgwylid i ddechrau mai'r gyfradd newydd fyddai 33.9%, a fyddai'n cael ei gyfyngu i gyfradd gyfwerth o 28% yn 2019-20 trwy ddarparu grant un flwyddyn, a chodi'r swm llawn yn 2020-21. Cynhaliwyd trafodaethau'n genedlaethol rhwng

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys. Yn rhan o’r cyhoeddiad cyllid ar 13 Rhagfyr 2018, cadarnhawyd cyfradd gyfrannu derfynol o 31% (wedi tynnu’r cyfraniad ychwanegol).

4.5 Y gost ychwanegol i HGC fydd £2.1 miliwn yn 2019-20 ac £1.9 miliwn arall yn 2020-21. Mae crynodeb o hyn yn y tabl isod. Mae hyn yn chwyddiant ychwanegol o 1.43% ar gyllideb 2019-20, sydd gyfwerth â chynnydd o 2.78% yn Nhreth y Cyngor.

| | Actiwaraidd<br>%| Gordal<br>% | Cyfanswm<br>% | Cost<br>19-20<br>£'000 | Cynnydd<br>19-20<br>£'000 | Cost<br>20-21<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd gyfredol | 21.3 | 2.9 | 24.2 | 12,833 | | |
| Amcangyfrif gwreiddiol | 31.0 | 2.9 | 33.9 | 18,046 | 5,213 | 5,574 |
| Diwygiedig | 31.0 | 0 | 31.0 | 16,503 | 3,670 | 4,000 |
| Grant | | | | | 1,582 | 0 |
| | | | | | | |
| Cost Net | | | | | 2,088 | 4,000 |

4.6 Gwnaed y cyhoeddiad am gyllid 2019-20 ar 13 Rhagfyr 2018. Nid oedd y cyhoeddiad am setliad ariannol cyson fel y flwyddyn flaenorol, ond am gynnydd o 2.1%. Mae hyn yn gynnydd o £1.506 miliwn i HGC. Dyma’r cynnydd cyntaf i’r grant ers 2010-11 ac er nad yw wedi’i nodi’n benodol felly, mae’n amlwg yn gydnabyddiaeth i effaith ddifrifol cynyddu cyfraniadau pensiwn.

4.7 Roedd y setliad hefyd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Heddluoedd yn Lloegr gynyddu eu Treth Cyngor Band D hyd at £24. Mae hyn hefyd yn uwch na’r ffigwr a gyhoeddwyd yn flaenorol o £12. Byddai hyn yn rhoi rhychwant o gynnydd yn Nhreth y Cyngor rhwng 9.3% a 21.8% pe bai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn cynyddu Treth y Cyngor yr uchafswm, sef £24. Penderfyniad i’r Comisiynwyr unigol fydd cynyddu Treth y Cyngor fel hyn ai peidio. Yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ddiffinio unrhyw gap ar Dreth y Cyngor ac ar adeg ysgrifennu’r CATC hwn, nid ydynt wedi gwneud hynny. Mae’r Swyddfa Gartref wedi cymryd yn ganiataol y byddai'r holl Heddluoedd yn cynyddu Treth y Cyngor £24 wrth gyfrifo’r swm ychwanegol posib’ a fyddai ar gael i Heddluoedd o braesept Treth y Cyngor o £509 miliwn.

4.8 Yn genedlaethol, mae’r Swyddfa Gartref wedi datgan y bydd y cynnydd i’r grant a mwy o hyblygrwydd â Threth y Cyngor yn cynyddu’r cyllid sydd ar gael o £813 miliwn. Disgrifiwyd hyn yn eu llythyr cyllid fel a ganlyn

*‘Dyna pam, **y byddwn yn cynyddu’r cyllid sydd ar gael i Gomisiynwyr hyd at £813m**, pe byddai’r Comisiynwyr yn defnyddio'u hyblygrwydd â’r praesept yn llawn. Dyma’r cynnydd blynyddol mwyaf ers 2010. Mae hynny yng nghyd-destun cynnydd mewn*

*cyllid heddlu gwrthderfysgaeth a buddsoddiadau mewn troseddau difrifol a threfnedig sy'n golygu* ***cynnydd yng nghyfanswm cyllid yr Heddlu yn 2019/20 o tua £970 miliwn****, eto, os yw Comisiynwyr yn defnyddio eu hyblygrwydd â'r praesept yn llawn. Rydym ni yn bersonol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan yr heddlu yr adnoddau maent eu hangen.'*

4.9 Fodd bynnag, roedd y cyhoeddiad yn datgan pedwar maes blaenoriaeth i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd. Nodwyd hyn fel a ganlyn

*'Yn 2019/20, rydym yn buddsoddi hyd yn oed mwy mewn plismona. Rydym angen eich cymorth chi i sicrhau y caiff ei wario'n dda. Mae hyn yn benodol bwysig pan fydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar yr Adolygiad o Wariant y flwyddyn nesaf. Felly mae'r setliad cyllid yn pennu pedwar maes blaenoriaeth i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant ac effeithiolrwydd y flwyddyn nesaf.*

*1. Ar ran y trethdalwr, mae'r Llywodraeth yn disgwyl parhau i weld arbedion effeithlonrwydd yn 2019/20 trwy gaffael cyfunol a gwasanaethau a rennir. Rhaid i ni weld dulliau cenedlaethol o gaffael deunydd fforensig, cerbydau a chyfarpar sylfaenol megis helmedau. Yn achos deunydd fforensig, nid yw'n ymwneud ag arbedion ariannol, ond cydweithio i gynnal marchnad effeithlon sy'n cefnogi anghenion plismona a'r system cyfiawnder troseddol cyfan.*

*2. Disgwyliwn ddatblygiadau mawr i ddatrys yr heriau o ran adnoddau ymchwilio a nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, yn cynnwys recriwtio mwy o dditectifs i fynd i'r afael â'r diffyg. Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i gefnogi'r lluoedd i wneud y newid hwn drwy gyflymu eu cynllun gweithredu ar ymchwiliadau, gan wneud defnydd llawn o'r arloesed a gynigir gan Police Now.*

*3. Gwella cynhyrchiant, gan gynnwys defnyddio data'n fwy doeth, a galluoedd digidol yn cynnwys gweithio symudol, gyda'r uchelgais o ddarparu £50 miliwn o enillion drwy gynhyrchiant yn 2019/20.*

*4. Ar ben hynny, disgwyliwn i'r lluoedd gynnal ymateb i droseddau difrifol a threfnedig sy'n cynnwys adnabod a rheoli bygythiadau lleol yn ogystal â chefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Dylai'r ymateb hwn gael ei adeiladu o gwmpas ymyrryd â bygythiadau troseddau difrifol a threfnedig lleol ynghyd ag atal, diogelu, partneriaethau ac ymgysylltu â'r gymuned.'*

4.10 Mae'r swm sydd ar gael i blismona'n parhau i gael ei frigdorri, gyda chynnydd arall o £84 miliwn yn genedlaethol yn 2019-20. Mae dadansoddiad o'r swm a frigdorrir i'w weld isod: Mae hyn yn gostwng y grant craidd mae HGC yn ei dderbyn o £10.6 miliwn, gyda chyfran fechan yn unig o hwnnw'n cael ei dderbyn fel cyllid ychwanegol neu fudd uniongyrchol.

| Cyllid yr Heddlu | 2017/18 (£miliwn) | 2018/19 (£miliwn) | 2019-20 (£miliwn) |
|---|---|---|---|
| **yn cynnwys ail-ddyraniadau ac addasiadau** | **812** | **945** | **1,029** |
| Cynllun ariannu preifat | 73 | 73 | 73 |
| Rhaglenni technoleg yr Heddlu | 417 | 495 | 495 |
| Cyrff hyd braich | 54 | 63 | 63 |
| Ychwanegiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol Troseddau ac Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol | | | 56 |
| Cryfhau'r ymateb i droseddu trefnedig | 28 | 42 | 90 |
| Cronfa drawsnewid yr Heddlu | 175 | 175 | 175 |
| Grant Arbennig | 50 | 93 | 73 |
| Mechnïaeth cyn cyhuddo | 15 | 4 | 4 |

4.11 Er bod y setliad hwn yn ymddangos fel gwelliant ar y blynyddoedd blaenorol, mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun cyflogau cynyddol a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau a'r chwyddiant pensiwn ychwanegol hefyd. Ar ben hyn, mae disgwyl i fwy o fuddsoddiadau ac adnoddau gael eu neilltuo ar gyfer galluoedd ditectifs, adnoddau troseddau difrifol a threfnedig a galluoedd digidol a symudol.

4.12 Nid oedd mwy o sôn am setliadau yn y dyfodol ar wahân i ddweud mai *"dyma'r setliad diwethaf cyn yr Adolygiad o Wariant nesaf, a fydd yn pennu cyllidebau hirdymor yr Heddlu ac yn ystyried sut mae dyrannu adnoddau'n deg ymysg yr Heddluoedd. Mae'r Swyddfa Gartref yn ddiolchgar i'r Heddlu am y gwaith da maent yn ei wneud i ehangu'r sail o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith hwnnw a byddwn hefyd eisiau gweld tystiolaeth bod buddsoddiad eleni'n cael ei wario'n dda."*

4.13 Mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Ymddengys bod y Swyddfa Gartref yn derbyn bod cyllid yr Heddlu wedi'i gwtogi gymaint â phosib', ond mae ansicrwydd economaidd ynghlwm â Brexit yn ei gwneud yn anodd darogan pa adnoddau fydd ar gael. Mae golwg ar osod lefel gyson o gyllid o 2020-21 ymlaen, sy'n welliant ar y toriad o -1% a ragwelid yn y CATC diwethaf.

4.14 Nid oes cynlluniau i adolygu Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu tan ar ôl yr adolygiad o wariant. Fe gyfeiriodd y Gweinidog at yr adolygiad o wariant gan ddweud y bydd yn "gosod cyllidebau hirdymor i'r heddlu ac yn ystyried sut y gall adnoddau gael eu dyrannu'n deg ymysg heddluoedd" ond mae hyn yn debygol o gyfeirio at y gwaith sydd ar fynd rhwng y Swyddfa Gartref a Sector yr Heddlu i gefnogi'r cyflwyniad i'r adolygiad o wariant. Mae ffrydiau gwaith yn ymchwilio i ffynonellau cyllid a modelau cyllid – h.y. trefniadau rhanbarthol/lleol ond nid oes unrhyw gynlluniau hyd yma i adolygu fformiwla ddyrannu gyfredol yr Heddlu.

## 5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm net Cyllideb yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 7.74% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r Sylfaen Drethu ar gyfer Gogledd Cymru gyfan wedi codi 0.63%, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 8.42% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £154.264 miliwn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – gweler isod:

| | 2019-20 | |
|---|---|---|
| | £miliwn | % |
| Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth | 73.234 | 47.5% |
| | | |
| Cyfanswm Praesept | 81.030 | 52.5% |
| | | |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllidebol | 154.264 | |
| | | |

5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept gyda'r sylfaen drethu – y sylfaen drethu yw nifer yr eiddo cyfwerth â Band D sydd ym mhob un o ardaloedd yr Heddlu. Darperir y sylfaen drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer 2017-18 wedi codi rhywfaint, o 0.63%. Mae hyn yn golygu y gellir cyflawni'r cynnydd canrannol yn y praesept gyda chynnydd canrannol is yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn yn darparu ar gyfer y cynnydd ym mhoblogaeth/cartrefi Gogledd Cymru.

5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn 'reolau capio', yn wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ychwanegol, mae grantiau ar wahân wedi parhau i fod ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y grantiau hyn yn arfer cael eu talu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond fe gawsant eu cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref a byddant yn gyfanswm o £507 miliwn yn 2019-20. Treth y Cyngor yng Ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe ystyrid y Grantiau Treth y Cyngor etifeddol hyn, byddai Gogledd Cymru yn y 6ed safle uchaf.

5.4 Mae'r rheolau capio yn Lloegr wedi'u cyhoeddi; fel y disgrifiwyd uchod, mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr hyblygrwydd i gynyddu Treth y Cyngor £24. Byddai hyn yn golygu rhoi ystod o gynnydd rhwng 10.1% (Surrey) a 21.8% (Northumbria) gan ddibynnu ar lefel gyfredol Treth y Cyngor. Ar adeg drafftio'r CATC, mae disgwyl i'r rhan fwyaf helaeth o ardaloedd yr Heddlu yn Lloegr gynyddu Treth y Cyngor yn unol â lefel ddisgwyliedig y Swyddfa Gartref, sef £24.

5.5 Nid oes unrhyw reolau capio wedi'u cyhoeddi yng Nghymru. Roedd y canlynol wedi'i gynnwys yn llythyr cyllid Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:
*'Mae polisi Llywodraeth y DU o gyni cyllidol wedi gorfodi toriadau sylweddol o ran arian ac mewn termau real i gyllid yr heddlu dros y 9 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r cyllid a ddarperir ar gyfer y Setliad hwn yn dad-wneud y blynyddoedd o ddarpariaeth annigonol er mwyn galluogi heddluoedd i gynnal y lefelau presennol o wasanaeth. Bydd yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru felly wneud penderfyniadau anodd wrth bennu lefel eu praesept y Dreth Gyngor. Canlyniad hyn fydd effaith anghymesur ar dalwyr y Dreth Gyngor sy'n ei chael yn fwyfwy anodd i dalu eu biliau.'*

5.6 Pe bai ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru'n cynyddu Treth y Cyngor o £24, y lefel ddisgwyliedig, byddai'n gynnydd o 9.3% i HGC, 10% i Went, 10.3% i Heddlu De Cymru a 10.7% i Ddyfed Powys.

## 6. Cyllideb 2019-20 a Chyllideb Gynlluniedig 2020-21 a 2023-24

6.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2019-20 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad B.

6.2 Mae'r prif ragdybiaethau fel y'u nodwyd yn y CATC blaenorol fel a ganlyn:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 2% o fis Medi
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo'n hysbys
- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 7.74% yn 2019-20 a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 4.32% yn 2020-21, 4.41% yn 2021-22, 3.97% yn 2022-23 a 3.82% yn 2023-24.
- Cynnydd mewn grant o 2.1% yn 2019-20, a setliad cyson o 0% ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2020-21 ymlaen

Mae hyn yn rhoi sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn:

| | **Cyllideb Flynyddol 2019-20** | **Cyllideb Flynyddol 2020-21** | **Cyllideb Flynyddol 2021-22** | **Cyllideb Flynyddol 2022-23** | **Cyllideb Flynyddol 2023-24** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Llinell sylfaen | 146,466 | 154,264 | 157,972 | 161,696 | 165,440 |
| Chwyddiant, yn cynnwys Pensiynau'r Heddlu | 5,223 | 5,124 | 3,475 | 3,781 | 3,988 |
| Twf o ail-fuddsoddi | 2,793 | 1,887 | 656 | 213 | 24 |
| Arbedion | -2,832 | -2,628 | -407 | -250 | -250 |
| Twf parhaol/dros dro ychwanegol | 2,614 | -675 | | | |
| **Gofyniad Cyllidebol** | **154,264** | **157,972** | **161,696** | **165,440** | **169,202** |
| | | | | | |
| Cyfanswm grant | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -81,030 | -84,738 | -88,462 | -92,206 | -95,968 |
| **Cyfanswm** | **-154,264** | **-157,972** | **-161,696** | **-165,440** | **-169,202** |
| | | | | | |
| **Balans** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| **Balans blynyddol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 7.74% | 4.32% | 4.14% | 3.97% | 3.82% |
| **Cynnydd mewn £** | 19.98 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

6.3 Mae'r gyllideb arfaethedig a osodwyd wedi'i mantoli dros 5 mlynedd; fodd bynnag, mae ansicrwydd sylweddol o 2020-21 ymlaen. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod effaith cynnydd Pensiynau Swyddogion yr Heddlu dros ddwy flynedd. Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd drwy'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol ac adolygiadau eraill a nodi lle sydd orau i ail-fuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd hyn i fynd i'r afael â bylchau yn y Gwasanaeth a'r galw sydd wastad yn newid y mae Heddluoedd yn ei wynebu. Mae cynlluniau i gyflwyno'r newidiadau hyn dros y ddwy flynedd nesaf. Ar ben hynny, mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi bod disgwyl adnoddau ychwanegol i dargedu adnoddau ditectifs a throseddau difrifol a threfnedig. Mae hyn wedi'i nodi isod o ran effaith gyffredinol chwyddiant, y cynllun arbedion a'r cynllun ail-fuddsoddi ac ym mhle mae cynlluniau i neilltuo adnoddau ychwanegol. Mae hyn yn gosod cynllun cadarn dros y ddwy flynedd nesaf sy'n mynd i'r afael â phroblem y Pensiynau yn ogystal â'r cynnydd o ran galw yn effeithlon ac effeithiol.

6.4 Roedd cap o 1% ar gynnydd yng nghyflogau'r sector cyhoeddus am nifer o flynyddoedd. Roedd y setliad ym mis Medi 2017 ar gyfer Swyddogion yr Heddlu a Staff am 1% o ddyfarniad cyflog a gyfrai fel rhan o'r cyflog cyfan ac 1% o ddyfarniad nad oedd yn rhan o'r pecyn cyflog. Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2% o fis Medi 2018 ymlaen, a rhagwelir bellach y bydd dyfarniadau cyflog yn 2% bob blwyddyn. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd cyffredinol mewn cyflog yn 2019-20 yn £1.8 miliwn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r cynnydd o £2 filiwn ar gyfer cyfraniadau ychwanegol at Bensiwn Cyflogwr Swyddogion yr Heddlu angen eu cynnwys. Amcangyfrifir chwyddiant cyffredinol ar darged Banc Lloegr, sef 2%. Fodd bynnag, mae'r holl linellau cyllidebau'n cael eu hadolygu i asesu a yw hyn yn realistig (gan edrych ar wariant a rhagdybiaethau'r gorffennol). Mae cynnydd sylweddol mewn costau ynni yn 2019-20 gan fod pris olew ar y pwynt uchaf ers 4 blynedd, prisiau carbon a glo ar eu pwynt uchaf ers 10 mlynedd, y bunt yn wan, taliadau rhwydweithio a chapasiti a diddymu taliadau amgylcheddol. Mae crynodeb o'r costau chwyddiannol a'u heffaith ar Dreth y Cyngor i'w weld isod.

| | £000 | Cynnydd cyfwerth yn Nhreth y Cyngor £ | Cynnydd cyfwerth yn Nhreth y Cyngor % | Chwyddiant cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| Chwyddiant cyflogau | 1,823 | £ 6.26 | 2.42% | 1.24% |
| Chwyddiant prisiau | 1,312 | £ 4.50 | 1.74% | 0.90% |
| Pensiwn yr Heddlu | 2,088 | £ 7.17 | 2.78% | 1.43% |
| **Cyfanswm chwyddiant** | **5,223** | **£ 17.93** | **6.94%** | **3.57%** |

6.5 Mae hyn yn sylweddol uwch na'r blynyddoedd diwethaf oherwydd costau pensiwn uwch a bydd hynny'n wir eto yn 2020/21 wrth i ni deimlo'r effaith lawn. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 6.94% i ddarparu ar gyfer chwyddiant yn unig pe na bai cynnydd yn y grant cyffredinol.

6.5 Nododd y CATC y llynedd faes o risg yn y dyfodol wrth weithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF). Bwriad y fframwaith hwn yw sicrhau bod yr heddlu wedi'u hyfforddi i safon gradd/ôl-radd. O ran costau, bydd cost ychwanegol

ffioedd dysgu/hyfforddwyr mewnol ychwanegol a bydd gweithwyr yn methu diwrnodau o waith yn ystod y flwyddyn 1af ac yn ystod yr 2il a'r 3edd flwyddyn newydd o hyfforddiant. Mae 3 ffordd o fanteisio ar y Fframwaith Cymwysterau; cwrs 2 flynedd i raddedigion, cwrs 3 blynedd israddedig yn arwain at radd fel Swyddog Heddlu cyflogedig a thrydydd llwybr o radd mewn Plismona mewn sefydliad addysg heb fod yn cael eich cyflogi fel Swyddog Heddlu. Mae costau a chyfraddau tynnu pobl o'r gwaith yn dal i gael eu cyfrifo, ond mae amcangyfrifon wedi'u cynnwys yn y CATC yn seiliedig ar gyfraddau recriwtio cyfredol ac amcangyfrif o'r bobl a fydd yn cael eu tynnu o'r gwaith yn ychwanegol gyda Swyddogion ychwanegol yn eu lle. Mae costau sylweddol yn y dyfodol ond maent yn is na'r rhai a amcangyfrifwyd yn y CATC diwethaf.

**Dewis A - Carfanau Cymysg gyda 50% o Brentisiaethau a 50% o Ddiplomâu Graddedig**

Costau ychwanegol

| Categori | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd Dysgu | £21,250 | £162,000 | £392,625 | £534,375 | £558,000 | £558,000 |
| 30% o gostau tynnu pobl o'u gwaith | £0 | £47,250 | £637,875 | £1,063,125 | £1,134,000 | £1,134,000 |
| **Cyfanswm y Costau** | **£21,250** | **£209,250** | **£1,030,500** | **£1,597,500** | **£1,692,000** | **£1,692,000** |

6.6 Mae'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol yn nesáu at gael ei chwblhau wedi'i hariannu'n bennaf o gronfeydd wrth gefn. Mae strategaethau Ystadau, TG a Fflyd at y dyfodol yn cael eu pennu a byddant yn arwain at ofynion buddsoddi newydd. Nid yw'r Grantiau Cyfalaf yn ddigon i ariannu 1/3 o'r Rhaglen Amnewid Cerbydau flynyddol; ni ellir ond defnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith. Mae amcangyfrif o £0.4 miliwn wedi'i gynnwys mewn amcangyfrifon o 2020-21 i ariannu buddsoddiadau cyfalaf drwy fenthyca. Bydd penderfyniadau terfynol ar hyn yn seiliedig ar achosion busnes ond mae'n ddarbodus cynnwys swm yn yr amcangyfrifon gan nad oes unrhyw ffynhonnell newydd arall o gyllid cyfalaf.

6.7 Mae grantiau wedi cynyddu at 2019-20, ond nid oes unrhyw arwydd y bydd hyn yn parhau yn 2020-21. Rhagdybir y byddant yn parhau'r un fath yn y blynyddoedd i ddod. Mae amcangyfrif o gynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu wedi ei gynnwys yn y ffigyrau.

6.8 Roedd cylch cynllunio 2017-18 yn cynnwys adolygiadau gwasanaeth oedd yn ymdrin â 41% o'r Heddlu sef gwariant staff o £50 miliwn. Roedd y rhain yn cynnwys adnoddau patrolio a'r cysylltiad â'r Uned Adnoddau Rheoli, adnoddau ymchwilio, plismona ffyrdd, gwasanaethau fforensig, y ddalfa, Adnoddau Dynol, prosiectau a gwasanaethau glanhau. Roedd yr adolygiadau hyn ar gamau gwahanol. Mae'r Uned Adnoddau Rheoli wedi'i gweithredu ac mae canfyddiadau cychwynnol yr Adolygiad Ymchwiliadol wedi'u hadrodd. Dygwyd elfennau gweithredol yr adolygiadau cyfredol, yn ogystal â'r elfennau ychwanegol, ynghyd o fewn y Rhaglen Gwelliant Gweithredol (RhGG) yn ystod 2018-19.

6.9 Roedd y RhGG yn cynnal adolygiad ar 47% o’r Heddlu yn seiliedig ar dystiolaeth; arweiniwyd hwn gan dîm o swyddogion gweithredol gyda chefnogaeth yr Uned Gallu a Galw, yr Adran Gyllid, Adnoddau Dynol ac eraill. Y meysydd a drafodwyd oedd

- **Adolygiad Ymchwiliadol –** Roedd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar yr adnoddau ymchwiliadol gofynnol ar lefel leol i ymdrin â newid yn y galw. Y cynnig yw cynyddu’r adnoddau sydd ar gael o 32; byddant yn gyfuniad o adnoddau ditectif ac ymchwilwyr cefnogaeth gymunedol yr Heddlu. Mae mwy o alw wedi arwain at gynnydd o 30% i 50% o droseddau y mae angen 100 diwrnod neu fwy i ymchwilio iddynt.

- **Plismona Cymdogaethau –** Mae buddsoddiad HGC mewn timau plismona cymdogaethau i'w weld yn uwch na Heddluoedd eraill o fewn proffiliau gwerth am arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei mawrhydi, a HGC yw’r uchaf o ran niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fesul 1000 o'r boblogaeth. Casglodd yr adolygiad y gellid cynnal darpariaeth y gwasanaeth drwy gwtogi 59 o Swyddogion Cymorth Cymunedol, 21 o Heddweision a 6 Sarsiant dros ddwy flynedd.

- **Adolygiad Heddweision a Sarsiantiaid Gwasanaeth Lleol yr Heddlu –** Roedd yr adolygiad yn edrych ar ffiniau ardaloedd, patrymau sifftiau a chyfraddau sarsiantiaid i heddweision a'r ffordd orau o ymdrin â newid yn y galw. Y canlyniad oedd parhau â'r opsiwn o 10 ardal (yn hytrach na’r un am 8 ardal) a newid y patrymau sifftiau i opsiwn 4 tîm. Bydd hyn yn golygu bod angen 5 sarsiant a 4 heddwas yn ychwanegol.

- **Adolygiad ar Ddalfeydd –** Roedd yr adolygiad yn edrych ar lefelau staffio a phatrymau sifftiau ac roedd rôl newydd penderfynwr yng Ngwasanaeth yr Heddlu wedi’i chynnwys. Bydd cwtogiad cyffredinol o 3 swydd, ond mae rôl y penderfynwr yng Ngwasanaeth yr Heddlu wedi’i chynnwys yn y niferoedd sefydledig.

- **Uned Rheoli Digwyddiadau –** Roedd yr adolygiad yn ystyried sut roedd digwyddiadau’n cael eu rheoli, sut y gellid defnyddio’r system uwchraddio i leihau galw a diffinio cyfrifoldebau o ran rheoli digwyddiadau'n glir er mwyn osgoi ailadrodd. Bydd ei gweithredu’n golygu arbed 12 swydd.

6.10 Mae’r holl adolygiadau uchod yn gysylltiedig â’i gilydd; roedd hyn wedi’i ystyried, yn ogystal â chysylltiadau ag ardaloedd eraill yn rhan o’r Rhaglen. Mae llawer o waith ymgynghori wedi’i wneud ac mae’r ymgynghoriad terfynol ar batrymau sifftiau’n dal i fynd. I ddechrau, byddai’r Rhaglen yn cael ei gweithredu dros dair blynedd ond mae bellach wedi’i phennu dros ddwy flynedd. Mae’r canlyniadau’n cyfrannu at y cynllun arbedion cyffredinol a’r cynlluniau ail-fuddsoddi isod, ond o ran y RhGG, mae’r tabl isod yn crynhoi’r sefyllfa arbedion ac ail-fuddsoddi.

| Arbedion | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Arbediad y RhGG** | | | |
| Plismona cymdogaethau | 1,638 | 1,493 | 0 |
| Y ddalfa | -73 | 82 | 82 |
| Rheoli digwyddiadau | 172 | 222 | 0 |
| Cyfanswm | 1,737 | 1,798 | 82 |
| **Ail-fuddsoddi yn y RhGG** | | | |
| Ymateb | 86 | 428 | 0 |
| Adolygiad ymchwiliadol | 797 | -25 | 0 |
| Cyfanswm a ail-fuddsoddwyd | 884 | 403 | 0 |
| Arbediad net | 853 | 1,394 | 82 |

6.9 Daeth adolygiadau eraill sydd ar fynd a'r adolygiad blynyddol o'r gyllideb o hyd i £1.095 miliwn o arbedion eraill yn 2019-20. Roedd y rhain yn cynnwys arbediad ar y Cynllun Ariannu Preifat a darpariaeth lanhau o fewn yr Adran Ystadau, gweithredu'r adolygiad Staff Fforensig ac arbedion effeithlonrwydd y daethpwyd o hyd iddynt dan sawl pennawd yn y gyllideb. Ceir hyd i arbedion yn y dyfodol yn rhan o waith yr Uned Galw a Gallu gyda'r Prosiectau Digidol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Mae'r cynllun arbedion wedi'i gadarnhau ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r cynllun drafft ar gyfer y dyfodol i'w weld isod.

| Arbedion | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **RhGG/Uned Galw a Gallu** | | | | | |
| Plismona cymdogaethau | 1,638 | 1,493 | 0 | 0 | 0 |
| Y ddalfa | -73 | 82 | 82 | 0 | 0 |
| Rheoli digwyddiadau | 172 | 222 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiadau Digidol/Uned Galw a Gallu | 0 | 500 | 250 | 250 | 250 |
| **Meysydd adolygu eraill** | | | | | |
| Contractau TG | 0 | 75 | 75 | 0 | 0 |
| Ystadau gan gynnwys y Cynllun Ariannu Preifat/Glanhau | 425 | 175 | 0 | 0 | 0 |
| Fforensig | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caffael | 20 | 80 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion Adolygu'r Gyllideb - Atebolrwydd cyflogwr/cyhoeddus | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adran Gweinyddu Cyfiawnder – 2 Trwyddedu arfau tanio | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad o'r Gyllideb | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **2,832** | **2,628** | **407** | **250** | **250** |

6.10 Yn ystod y broses gynllunio, daeth yn amlwg bod technoleg ddigidol yn faes sydd angen buddsoddi ynddo, oherwydd y gofynion cenedlaethol a'r manteision mae technoleg yn eu darparu. Bydd hyn yn golygu uwchraddio'r caledwedd presennol, a newid prosesau busnes er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision a fydd, yn eu tro, yn darparu arbedion effeithlonrwydd ychwanegol. Mae datblygiadau digidol wedi'u rhannu'n 3 maes: Symudedd a Gallu, Rheoli Galw a Thechnoleg i ategu casglu tystiolaeth. Yn ychwanegol at y rhain, mae prosiectau sy'n ymwneud â Thrawsnewid y

Gweithlu, Cydweithio a Phartneriaethau a Datblygu Gweithredol a Busnes angen buddsoddiadau ychwanegol yn y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a pharhad yr Uned Galw a Gallu. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyffredinol o £1.480 miliwn yn 2019-20; a £0.755 miliwn o hwnnw'n fuddsoddiad cylchol mewn technoleg yn seiliedig ar gytundebau cenedlaethol a symud tuag at gytundeb trwyddedu ar gyfer meddalwedd Microsoft (Rhaglen Alluogi Genedlaethol) a £0.725 miliwn am staff Rheoli Prosiectau a Chefnogi (2 TG; 5 Swyddog Rheoli Prosiectau a 6 yn yr Uned Galw a Gallu).

6.11 Nodwyd meysydd twf eraill fel cyfraniadau at gyrff Rhanbarthol a Chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad newydd tuag at Dîm Cydweithio Cymru Gyfan a chyfraniadau a thimau Cydweithio Gogledd-orllewin Prydain. Nodwyd gofynion ychwanegol hefyd o fewn Darpariaethau Meddygol Dalfeydd, cefnogaeth Camerâu'r Corff a Gwiriadau. Mae'r cyfansymiau a ail-fuddsoddwyd i'w gweld yn y tabl isod. Mae'r ail-fuddsoddiadau hyn o £2.793 miliwn yn cael eu hariannu o'r arbedion effeithlonrwydd y daethpwyd o hyd iddynt, sef £2.832 miliwn.

| Ail-fuddsoddi | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | | | | | |
| RhGG - Perfformiad | 86 | 428 | 0 | 0 | 0 |
| RhGG - Adolygiad ymchwiliadol | 797 | -25 | 0 | 0 | 0 |
| Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu | 21 | 779 | 656 | 213 | 24 |
| Benthyca cyfalaf | 0 | 400 | 0 | 0 | 0 |
| TG - Rhaglen alluogi genedlaethol/digideiddio | 877 | 305 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddfa Rheoli Rhaglenni | 338 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Galw a Gallu | 265 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad o wasanaethau meddygol - Darpariaeth yn y ddalfa/Nyrsys Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol | 123 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Atal troseddau - Datrys problemau | 58 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad i gyrff - Cymru gyfan, Gogledd-orllewin Prydain, Polisi Arfau Tanio, ac ati | 170 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall - cefnogaeth camerâu'r corff a gwiriadau | 57 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,793** | **1,887** | **656** | **213** | **24** |

6.12 **Ychwanegedd -** Mae setliad y gyllideb gan y Swyddfa Gartref eleni ychydig yn well na'r disgwyl. Yn ychwanegol at hyn, mae'r llythyr sy'n cyd-fynd ag o gan y Swyddfa Gartref yn rhoi cefnogaeth gryf i heddluoedd geisio derbyn cymaint o arian ag y gallant drwy braesept Treth y Cyngor. Awgrymir y dylai'r heddluoedd geisio cynyddu praesept Treth y Cyngor o hyd at £24 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D. Credir y bydd y rhan fwyaf helaeth o'r heddluoedd yn ceisio gwneud hynny gyda chefnogaeth eu Comisiynwyr a'u Paneli Heddlu a Throsedd. Cydnabyddir hefyd fod Heddlu Gogledd Cymru eisoes yn derbyn cefnogaeth ariannol gref gan y gymuned leol. Bydd cynyddu Treth y Cyngor £19.98 yn hytrach na £24 yn caniatáu buddsoddiadau cyflawnadwy o £2.6 miliwn i gefnogi amcanion y Comisiynydd a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabliaid gan gyfyngu ar y cynnydd i drethdalwyr. I ddod i'r casgliad hwn, ystyriwyd y mater gan ddefnyddio proffiliau gwerth am arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei mawrhydi, data perfformiad yr Heddlu, dealltwriaeth o'r galw a'r gallu o'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol, Datganiad Rheoli'r Heddlu a barn broffesiynol arweinwyr gwasanaethau a'u timau. Drwy ymrwymo £0.675 miliwn o hyn tuag at wariant nad yw'n wariant cylchol, bydd

hyn hefyd yn galluogi i gyllideb 2020-21 gael ei mantoli yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod. Bydd hyn yn cynyddu nifer y Swyddogion o 34 a Staff o 6. Yn 2019-20, bydd angen recriwtio 90 o swyddogion newydd yn hytrach na 54 fel y cynlluniwyd.

6.13 Y meysydd y cytunwyd i fuddsoddi ynddynt yw

- **Cynyddu capasiti a gallu gweithredol a rhagweithiol**
  **Nod -** sefydlu tasglu wedi'i arwain yn ganolog. Darparu capasiti deinamig ychwanegol i frwydro yn erbyn trosedd yn rhagweithiol a darparu canlyniadau trawsnewidiol tuag at flaenoriaethau gweithredol.
  **Budd -** Darparu adnodd deinamig a hyblyg o ran troseddau lefel 1 / lefel 2 a gwella sgiliau i gefnogi'r gwasanaeth i fod yn rhagweithiol. Capasiti i bennu tasgau'n uniongyrchol ac yn rhagweithiol mewn perthynas ag unigolion, safleoedd a lleoliadau penodol a nodir trwy fentrau datrys problemau uwch ar draws Gogledd Cymru.

- **Cynyddu capasiti a gallu o ran troseddau difrifol a threfnedig**
  **Nod -** cynyddu capasiti o ran troseddau difrifol a threfnedig i ganolbwyntio ar weithredoedd i fynd i'r afael â throseddau difrifol, rhwydweithiau cyflenwi cyffuriau a llinellau sirol sy'n dod yn fwy soffistigedig a niferus.
  **Buddion -** Gwell gallu i drechu troseddau difrifol a threfnedig. Bydd capasiti ychwanegol yn galluogi'r Uned Troseddau Difrifol a Threfnedig i wella ei heffaith gyffredinol ar y flaenoriaeth hon i'r Heddlu ac yn sicrhau bod tactegau a gweithrediadau'n cael eu cwblhau i ddarparu gwell perfformiad.

- **Cynyddu capasiti Pwyntiau Cyswllt Unigol dadansoddi a ffonau**
  **Nod –** Gwella'r capasiti i ddod o hyd i dargedau a chasglu gwybodaeth trwy ddata cyfathrebu.
  **Budd -** Bydd gwybodaeth gywir sy'n cael ei datblygu drwy hyn yn helpu i fyrhau ymholiadau ac yn sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu targedu'n gywir.

- **Datblygu a gweithredu tîm newydd ar gyfer troseddwyr ar ffo**
  **Nod -** Dod o hyd i bobl y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt am nifer o droseddau ac y credir eu bod yng Ngogledd Cymru a'u dal**.**
  **Budd -** Dod â phobl mae'r Heddlu'n chwilio amdanynt ger bron y llysoedd. Bydd y siawns o gael eu dal yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd troseddwyr yn ceisio dod i gymunedau Gogledd Cymru.

- **Cynyddu'r capasiti ar gyfer archwiliadau fforensig digidol**
  **Nod -** Galluogi'r Uned Fforensig Ddigidol i gynnal cytundebau lefel gwasanaeth cyfredol sydd ar waith ar draws y sefydliad a pharhau i gefnogi ymchwilwyr i droseddau difrifol a chymhleth.
- **Budd -** Gan fod yr Uned Fforensig Ddigidol yn rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i Dîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu a'r holl ymchwiliadau, sydd wedi gweld cynnydd blynyddol yn y galw a mwy o achosion cymhleth sy'n gysylltiedig â materion diogelu, bydd mwy o staff i'r Uned yn sicrhau bod llai o debygolrwydd o oedi wrth brosesu ymchwiliadau i droseddau. Bydd hefyd yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwasanaethau allanol ac, o bosib', oedi ar waith fforensig digidol pwysig.

- **Mwy o Swyddogion Cam-drin Domestig**
  **Nod -** Galluogi Swyddogion Cam-drin Domestig i ateb y galw cynyddol a lleihau'r elfennau o fod yn agored i niwed sy'n gysylltiedig â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig.
  **Budd -** Mae Swyddogion Cam-drin Domestig yn cefnogi, cyfeirio a chydweithio'n agos gyda sefydliadau partneriaid i helpu dioddefwyr cam-drin domestig. Mae data cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol o ran troseddau domestig, a chyfran fawr o ddioddefwyr angen cymorth uniongyrchol gan Swyddog Cam-drin Domestig. Mae HGC hefyd yn gweithio dan ganllawiau SafeLives felly ystyrir bod cynyddu nifer y Swyddogion Cam-drin Domestig yn hanfodol os ydym am barhau i ddarparu'r gwasanaeth fel mae ar hyn o bryd.

- **Mwy o Swyddogion yn yr Uned Troseddwyr Rhyw a Threisgar**
  **Nod -** Galluogi swyddogion yr Uned Troseddwyr Rhyw a Threisgar i reoli'r troseddwyr presennol a chefnogi mwy o waith datrys problemau ataliol gyda'r rhai sy'n peri'r risg fwyaf i gymunedau.
  **Budd -** Bydd mwy o swyddogion yn yr Uned yn creu gwytnwch i wynebu'r galw uwch i reoli troseddwyr a'r disgwyliad i wneud mwy o waith ataliol gyda phobl sydd wedi'u hasesu fel rhai risg uchel ac uchel iawn.

- **Cynyddu ymarferoldeb Onyx a darparu gallu o ran Camfanteisio Troseddol ar Blant**
  **Nod -** Datblygu'r uned Onyx yn Uned Camfanteisio ar Blant lle gellir dod o hyd i ddioddefwyr Camfanteisio Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio Troseddol ar Blant, ymgysylltu â nhw a'u cefnogi gan ddefnyddio dull amlasiantaeth**.**
  **Budd -** Bydd datblygu'r uned yn galluogi cefnogi ac ymgysylltu â dioddefwyr Camfanteisio Troseddol ar Blant yn well, sy'n her ar hyn o bryd. Bydd gwell capasiti yn proffesiynoli ac yn gwella'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i rai o blant mwyaf bregus ein cymunedau a bydd yn dwyn datrysiadau amlasiantaeth ynghyd i fynd i'r afael â materion cymhleth Camfanteisio Rhywiol a Throseddol ar Blant yn gymesur.

- **Hwylusydd Tasgau a Chydlynu Amlasiantaethol**
  **Nod -** Cydlynu, hwyluso a goruchwylio cyfarfodydd amlasiantaeth troseddwyr ar gyfer Cam-drin Domestig.
  **Budd -** Byddai'r Hwylusydd yn pennu'r troseddwyr Cam-drin Domestig mwyaf niweidiol o ddata'r Heddlu gan ddefnyddio proses ddadansoddol Diweddaredd, Amlder a Difrifoldeb a data partneriaid a dull y cytunwyd arno i dargedu pob troseddwr. Mae tystiolaeth sy'n cael ei chefnogi gan yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth yn awgrymu bod ffocws amlasiantaeth ar ddatrys problemau.

- **Diweddaru gynau taser i'r fersiwn ddiweddaraf a chynyddu nifer y Swyddogion y gellir eu hanfon o 300 i 400**
  **Nod -** Disodli cyfarpar sydd ar ddiwedd ei oes a chynyddu'r nifer o swyddogion hyfforddedig o 100
  **Budd -** Swyddogion a'r cyhoedd yn fwy diogel. Cost yn seiliedig ar gontract 5 mlynedd sy'n rhannu'r gost ac yn rhoi gwarant ar yr uwchraddiad a'r cyfarpar (cetris ac ati) dros y disgwyliad oes o 5 mlynedd.

- **Cronfa arloesi**
  **Nod -** Cronfa i hybu arloesi a hybu profi syniadau newydd.
  **Budd -** Caniatáu dod o hyd i fuddion yn sydyn a datblygu galluoedd newydd yn gyflym.

  **Paratoad digidol**
  **Nod -** Ariannu buddsoddiadau mewn cyfarpar TG.
  **Buddion -** Buddsoddi mewn dyfeisiau ar gyfer swyddi gweithredol wedi'u targedu er mwyn mwy o hyblygrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

- **Paratoadau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod trwy Gronfa'r Comisiynydd**
  **Nod -** Darparu cyllid i sefydliadau partner sy'n mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
  **Buddion -** Annog a hyrwyddo cydweithio gan warchod y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

6.13 Isod, mae cyfanswm y buddsoddiadau.

| | **Ychwanegedd** | **Swyddogion**<br><br>**Cyfwerth â llawn amser** | **Staff**<br><br>**Cyfwerth â llawn amser** | **Cyfanswm Cylchol**<br><br>**£'000** | **Cyfanswm Sefydlu**<br><br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynnydd mewn capasiti a gallu gweithredol a rhagweithiol | 16 | 1 | 783 | 115 |
| 2 | Cynnydd mewn capasiti a gallu o ran troseddau difrifol a threfnedig | 6 | | 254 | 8 |
| 3 | Cynyddu capasiti Pwyntiau Cyswllt Unigol dadansoddi a ffonau | | 3 | 114 | 8 |
| 4 | Datblygu a gweithredu tîm newydd ar gyfer troseddwyr ar ffo | 3 | | 132 | 19 |
| 5 | Cynyddu'r capasiti ar gyfer archwiliadau fforensig digidol | 1 | 1 | 84 | 5 |
| 6 | Nifer uwch o Swyddogion Cam-drin Domestig | 3 | | 127 | 4 |
| 7 | Mwy o Swyddogion yn yr Uned Troseddwyr Rhyw a Threisgar | 3 | | 127 | 4 |
| 8 | Cynyddu ymarferoldeb Onyx a darparu gallu o ran Camfanteisio Troseddol ar Blant | 2 | | 84 | 3 |
| 9 | Hwylusydd Tasgau a Chydlynu Amlasiantaethol | | 1 | 38 | 2 |
| 10 | Diweddaru a gwella gynau taser | | | 136 | |
| 11 | Cronfa arloesi | | | 60 | |
| 12 | Paratoadau Buddsoddiadau Digidol | | | | 407 |
| 13 | Paratoadau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod trwy Gronfa'r Comisiynydd | | | | 100 |
| | Cyfanswm buddsoddiadau ar gyfradd o £19.98/7.74% o gynnydd yn Nhreth y Cyngor | 34 | 6 | 1,939 | 675 |

## 7. Risgiau

7.1 Bydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad o wariant yn 2019 fel sail i ddyrannu cyllid yn 2020-21, sy'n golygu bod ansicrwydd mawr ynghylch cyllid. Mae ansicrwydd Brexit a’r effaith economaidd ddilynol yn creu mwy o ansicrwydd.

7.2 Un o’r risgiau mwyaf dros y blynyddoedd nesaf yw’r fformiwla gyllid oherwydd y sensitifrwydd a’r ansicrwydd ynglŷn â’r fformiwla newydd. Roedd y ffigyrau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos dyraniad Gogledd Cymru'n cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm. Roedd hyn yn golygu £2 filiwn o gyllid ychwanegol. Roedd amcangyfrifon a ddarparwyd gan Ddyfnaint a Chernyw wedyn yn dangos dyraniad Gogledd Cymru'n gostwng £14.5 miliwn, sy'n dangos sensitifrwydd unrhyw newidiadau. Nid yw’r Swyddfa Gartref wedi nodi eu bwriadau o ran adolygu'r fformiwla.

7.3 Mae risgiau cenedlaethol a lleol newydd a rhai’n dod yn fwy amlwg y mae’n rhaid darparu adnoddau ar eu cyfer fel Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant a Throseddu Seiber. Mae dyraniadau ychwanegol wedi’u gwneud ond mae’r rhain yn feysydd dwys o ran adnoddau a bydd angen eu hasesu ymhellach yn y dyfodol. Yn lleol, bydd datblygu’r Carchar yn Wrecsam a Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa B yn creu galw am adnoddau plismona. Yn ychwanegol at hyn, mae asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus yn gweld eu cyllidebau’n lleihau a allai hefyd gynyddu'r galw ar wasanaeth yr Heddlu.

7.4 Mae datblygiadau cenedlaethol fel Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu a nodir yn yr adrannau blaenorol yn creu risgiau ariannol a gweithredol. Roedd y system yn lle system gyfathrebu'r Heddlu i fod i ddarparu arbedion, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau ac mae oedi wedi dod â chostau ychwanegol sy'n annhebygol o gael eu talu'n ganolog.

7.5 Mae’r cynlluniau ar gyfer yr arbedion yn 2018-19 yn cael eu gweithredu; er hynny, mae'n dal cwblhau'r arbedion posib' ar gyfer 2019-20 a 2020-21. Mae’r cynlluniau hyn rhai aeddfed ac mae disgwyl i'r arbedion hyn gael eu cyflawni o fewn y cyfnod o ddwy flynedd. Mae cynlluniau y tu hwnt i 2020-21 yn cael eu datblygu. Nid yw holl arbedion y dyfodol dan reolaeth yr Heddlu, er enghraifft, bydd arbedion cydweithio’n dibynnu ar heddluoedd a sefydliadau eraill.

7.6 Mae’r amcangyfrifon o’r cyllidebau a nodir yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio ynglŷn â chytuno ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Pe bai hwn yn cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.752 miliwn i gyllidebau.

7.7 Mae’r Swyddfa Gartref wedi brigdorri’r symiau a ddyrennir i ardaloedd yr Heddlu dros y blynyddoedd diwethaf i ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Mae brigdorri wedi cynyddu 26% dros y 3 blynedd ddiwethaf, i gyfanswm o £1.029 miliwn. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at frigdorri eto.

7.8 Gellid gwneud mwy o doriadau pe bai'r hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad ychwanegol o 1% i Gyllid Grant cyffredinol yn ostyngiad ariannol o £.732 miliwn.

7.9 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall unrhyw fân gynnydd i gyflogau, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Brentisiaethau, neu unrhyw wariant arall sy'n gysylltiedig â chyflogau gael effaith anghymesur ar y gyllideb. Mae pob cynnydd cyflog o 1% yn golygu cynnydd o £1.230 miliwn yn ychwanegol mewn costau dros flwyddyn. Mae cynnydd o ran costau pensiwn, fel y gwelwyd yn 2019-20, hefyd yn gallu cael effaith sylweddol ar gyllidebau. Os nad yw grantiau'n cynyddu'n unol â chostau chwyddiannol, mae cost chwyddiant cyflog un ai'n gorfod dod o Dreth y Cyngor neu o arbedion. Mae'r risg nad yw chwyddiant yn cael ei gydnabod yn setliad y Llywodraeth yn un sylweddol.

7.10 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diwethaf ac mae rhagdybiaethau'r gyllideb yn adlewyrchu hynny, ond gallai hyn newid, yn enwedig o ran pethau fel tanwydd ac ynni lle gall prisiau fod yn anwadal.

7.11 Mae'r tabl isod yn dangos sensitifrwydd y prif ragdybiaethau.

| Prif Newidynnau | £ miliwn |
|---|---|
| **Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor** | 0.752 |
| **Newid o 1% yn y grant** | 0.732 |
| **Newid o 1% yn y cyflogau** | 1.230 |
| **Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol** | 0.420 |

## 8. Cyfalaf

8.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol, sydd wedi bod ar waith ers 2013-14, yn tynnu tua'i therfyn. Erbyn diwedd 2018-19 bydd y canlynol wedi'i gyflawni

- 4 cyfleuster mawr newydd yn Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad)
- 20 cyfleuster wedi'i ailwampio ac adleoliadau
- Parhau â'r Rhaglen Amnewid Cerbydau
- Uwchraddio rhwydweithiau, gweinyddwyr, byrddau gwaith, dyfeisiau symudol a newid systemau technoleg yr Ystafell Reoli.

8.2 Mae angen buddsoddi parhaus yn asedau a seilwaith yr Heddlu, er mwyn sicrhau arferion gwaith effeithlon a modern. Mae strategaethau ystadau, TG a'r fflyd wedi cael eu diweddaru a byddant yn llywio'r Rhaglen Gyfalaf tymor canolig newydd a fydd yn cael ei chwblhau dros y 12 mis nesaf. Mae cynlluniau o'r manylion wedi eu llunio ar gyfer Rhaglen ddrafft 2019-20 ac mae amcangyfrifon wedi eu cynnwys ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, a bydd y rhain yn destun achosion busnes cyn rhoi unrhyw gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â nhw.

8.3 Bydd Rhaglen 2019/20 yn cynnwys cwblhau dalfa, pencadlys a chyfleusterau tref Wrecsam; hwn yw'r prosiect mwyaf y mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymgymryd ag o erioed. Bydd y rhaglenni amnewid ar gyfer y Fflyd a TG yn parhau.

8.4 Roedd Rhaglen Ystadau 2019-20 yn cynnwys darpariaeth i ddatblygu Gorsaf Heddlu Pwllheli. Mae gwaith yn y dyfodol yn cael ei nodi fel rhan o'r Strategaeth Ystadau.

8.5 Mae angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer isadeiledd TG. Mae hwn yn cael ei gyfarwyddo gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd y mater personol o lechi electronig a dyfeisiau tebyg i staff a swyddogion gweithredol yn galluogi iddynt symud a defnyddio'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol o ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael. Mae achosion busnes amlinellol wedi'u darparu ym mhob maes ac mae'r achosion manwl a'r buddion busnes i gael eu cwblhau dros y misoedd nesaf. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys newid cyfarpar camerâu corff am gyfarpar newydd.

| **Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
|---|---|
| Llechi electronig personol a dyfeisiau tebyg | 900 |
| Isadeiledd y Rhaglen Alluogi Genedlaethol /SailPoint/dolenni'r we | 471 |
| Meddalwedd cysylltedd | 85 |
| Uwchraddiadau WiFi | 500 |
| Sain-weledol gweithlu digidol | 200 |
| Sengl ar-lein gartref | 40 |
| Diwedd oes – amryw systemau | 1,380 |
| Camerâu corff | 400 |

8.6 Mae'r rhaglen yn fforddiadwy ac wedi'i hariannu yn defnyddio grantiau, cronfeydd wrth gefn, refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o'r symiau yn y gyllideb refeniw drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog.

8.7 Mae'r ffigyrau cyfalaf i'w gweld yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf sy'n cynnwys Strategaethau'r Cod Darbodus a Rheoli'r Trysorlys.

**8.8 Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25**

| | **£'000** |
|---|---|
| **GWARIANT:** | **CYFANSWM** |
| Rhaglen Ystadau | 17,129 |
| Cerbydau ac offer arall | 8,355 |
| Offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 7,641 |
| | **33,125** |

| **CYLLID:** | |
|---|---|
| Grant Cyffredinol y Swyddfa Gartref | 2,772 |
| Cyfraniadau refeniw | 6,116 |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | 2,528 |
| Derbyniadau cyfalaf | 1,600 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 16,004 |
| Benthyca ar gyfer Rhaglen Newid Offer | 4,105 |
| Cyfanswm | **33,125** |

## 9. Cronfeydd wrth gefn

9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i rheoli yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Mae'r rhain wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £25.8 miliwn i £16.9 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf. Bwriedir buddsoddi yn defnyddio'r gronfa rheoli i wneud y newidiadau angenrheidiol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Ceir disgrifiad o bob cronfa ar ddiwedd yr adran.

9.4 Mae'r cronfeydd wrth gefn yn agosáu at ran isaf yr ystod sy'n dderbyniol, gan ystyried y risgiau ariannol sydd wedi eu trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn o'r cyllidebau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd unrhyw wariant sylweddol sydd heb ei gynllunio yn golygu y bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau yn y dyfodol.

### Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn

| *Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio* | 31.3.19 Balans £ miliwn | 31.3.20 Balans £ miliwn | 31.3.21 Balans £ miliwn | 31.3.22 Balans £ miliwn | 31.3.23 Balans £ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn | 1.109 | 0.866 | 1.011 | 0.734 | 0.884 |
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | 14.683 | 11.502 | 11.333 | 11.145 | 10.840 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio** | **20.981** | **17.557** | **17.533** | **17.068** | **16.913** |

## Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn wedi'u Clustnodi

| Disgrifiad | 31.3.19<br><br>£ miliwn | 31.3.20<br><br>£ miliwn | 31.3.21<br><br>£ miliwn | 31.3.22<br><br>£ miliwn | 31.3.23<br><br>£ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddi Cyfalaf** | 0.448 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Digwyddiadau Mawr** | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 | 2.197 |
| **Cronfa Bensiwn Salwch wrth Gefn** | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 | 0.915 |
| **Cronfa Yswiriant wrth Gefn** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa wrth Gefn y Cynllun Ariannu Preifat** | 4.333 | 4.377 | 4.306 | 4.118 | 3.813 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 0.834 | 0.834 | 0.834 | 0.834 | 0.834 |
| **Rheoli Newid** | 3.772 | 0.995 | 0.897 | 0.897 | 0.897 |
| **Cronfa wrth Gefn Partneriaethau** | 0.553 | 0.553 | 0.553 | 0.553 | 0.553 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.226 | 0.226 | 0.226 | 0.226 | 0.226 |
| **Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.051 | 0.051 | 0.051 | 0.051 | 0.051 |
| **Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.181 | 0.181 | 0.181 | 0.181 | 0.181 |
| **Cyfanswm** | **14.683** | **11.502** | **11.333** | **11.145** | **10.840** |

9.4 Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r sefyllfa refeniw derfynol yn 2018-19, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r gronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn digwyddiadau mawr) ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl.

9.5 Cyhoeddodd Gweinidog yr Heddlu ganllawiau newydd ynglŷn â thryloywder cronfeydd wrth gefn yn ystod 2018-20. Mae'r tablau isod yn dangos y cronfeydd yn ôl categorïau'r canllawiau.

| Cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn | 31.3.18 | 31.3.19 | 31.3.20 | 31.3.21 | 31.3.22 | 31.3.23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn** | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **Cronfeydd Refeniw wrth Gefn wedi'u Clustnodi** | | | | | | |
| a gedwir ar gyfer risgiau cyllidebol | 4.755 | 4.517 | 4.517 | 4.517 | 4.517 | 4.517 |
| a gedwir i ategu'r gyllideb tymor canolig | 0.226 | 0.226 | 0.226 | 0.226 | 0.226 | 0.226 |
| a gedwir i hwyluso rhaglenni newid | 7.119 | 4.606 | 1.829 | 1.731 | 1.731 | 1.731 |
| a gedwir ar gyfer diffygion yn y dyfodol ar gontractau'r Cynllun Ariannu Preifat | 4.212 | 4.333 | 4.377 | 4.306 | 4.118 | 3.813 |
| sydd wedi'u hymrwymo ar gyfer rhaglenni cyfalaf y dyfodol | 2.341 | 0.448 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| y cedwir Cronfeydd wrth Gefn ar ran sefydliadau eraill | 0.553 | 0.553 | 0.553 | 0.553 | 0.553 | 0.553 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw wrth Gefn** | 24.395 | 19.872 | 16.691 | 16.522 | 16.334 | 16.029 |
| | | | | | | |
| **Grantiau Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn** | | | | | | |
| sydd yn grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| sydd yn y gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn | 1.487 | 1.109 | 0.866 | 1.011 | 0.734 | 0.884 |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM Cronfeydd wrth Gefn** | 25.882 | 20.981 | 17.557 | 17.533 | 17.068 | 16.913 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw wrth Gefn wedi'u dadansoddi fel a ganlyn: | | | | | | |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni dros gyfnod y CATC cyfredol | 10.239 | 5.833 | 2.608 | 2.510 | 2.510 | 2.510 |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni y tu hwnt i gyfnod y CATC cyfredol | 8.967 | 8.850 | 8.894 | 8.823 | 8.635 | 8.330 |
| Arian Cyffredinol at Raid | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD REFENIW WRTH GEFN** | 24.395 | 19.872 | 16.691 | 16.522 | 16.334 | 16.029 |

**9.6** **Cronfa Buddsoddi Cyfalaf** – I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg)** – I'w defnyddio pan fo digwyddiad mawr yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi arwain at leihau'r gyllideb digwyddiadau mawr wrth gefn.

**Cronfa Bensiwn Salwch (Risg)** – Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd gyfwerth â dwywaith cyflog swyddog ar gyfer pob Ymddeoliad oherwydd Salwch. Mae cadw'r gronfa'n gofalu am amrywioldeb yr eitemau nifer isel, cost uchel hyn o flwyddyn i flwyddyn.

**Yswiriant (Risg)** – Mae hwn yn ymwneud â'r Municipal Mutual Insurance Limited scheme of Arrangement a all arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432 miliwn; ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

**Cronfa'r Cynllun Ariannu Preifat (Refeniw wedi'i glustnodi)** – Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer Cynllun Ariannu Preifat gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn; a bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod contract y Cynllun.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

**Cronfa wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Balansau a gedwir ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw hyd nes bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ac yn arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Cronfa wrth gefn y Swyddfa'r Comisiynydd, cronfa gyfreithiol wrth gefn a chyllideb gyfranogi.

## 10 Crynodeb

10.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf a defnyddio cronfeydd wrth gefn dros y 5 mlynedd nesaf.

10.2 Mae pwysau o gostau uwch oherwydd chwyddiant a gofynion newydd wedi arwain at benderfyniadau anodd yn ystod y broses gynllunio hon. Roedd yr hysbysiad ynglŷn â chynnydd i gyfraniadau pensiwn o £4 miliwn dros 2 flynedd mor hwyr yn y broses yn ychwanegu at yr her o fantoli'r gyllideb a darparu'r gwasanaeth. Mae'r costau ychwanegol hyn yn dilyn cyfnod o wyth mlynedd lle mae £31 miliwn o arbedion wedi'u tynnu o'r cyllidebau. Mae'r galw sy'n dod i'r amlwg ar adnoddau gweithredol hefyd yn ychwanegu at y pwysau ariannol.

10.3 Mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch y pum mlynedd nesaf o ran adnoddau a fydd ar gael a mwy o alw. Ystyriwyd yr holl opsiynau wrth gydbwyso fforddiadwyedd i drethdalwyr a sicrhau digon o adnoddau i ateb y galw. Nid yw'r opsiwn i gynyddu Treth y Cyngor £24 fel y disgwyliai'r Swyddfa gartref wedi'i ddewis. Cynigir cynnydd o £19.98 a fydd yn caniatáu gosod cyllideb gytbwys dros y ddwy flynedd nesaf gyda pheth sicrwydd, gan hefyd ailddyrannu adnoddau a darparu buddsoddiadau ar gyfer blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r cynllun pum mlynedd yn nodi cyllideb gynaliadwy a mor sefydlog â phosib yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

## Atodiad A

## Y Strategaeth Ariannol

**Amcanion Strategol Cyllidol:**

- Blaenoriaethu adnoddau fel bod cynlluniau gwario'n cyd-fynd â gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel y'u nodwyd yn y Cynllun Plismona
- Cynnal cyllideb gytbwys a phennu cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth drwy'r cyfnod o lai o gyllid
- Rhoi gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Gweithredu'n gywir a darbodus gyda rheolaeth ariannol gadarn
- Darparu fframwaith cadarn i gynorthwyo'r broses benderfynu
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas a pheidio mynd i fwy o ddyled na'r lefel gynaliadwy
- Adolygu cyllidebau'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar amcanion allweddol

I gyflawni'r amcanion strategol, cynllunnir yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Corfforaethol a Busnes**

- Integreiddio gwaith cynllunio gweithredol ac ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu i ategu blaenoriaethau'r Cynllun Strategol a pharu adnoddau ag amcanion corfforaethol
- Llunio cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prosiectau cyfalaf a refeniw mawr yr Heddlu a'r strategaethau TG ac Ystadau i ddarparu cyllid cynaliadwy dros y tymor byr a'r tymor canolig
- Llunio cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol fanwl sy'n cefnogi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau

**Rheoli Risg – Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen bolisi tymor canolig yn gynaliadwy ac y gellir ei chyflawni
- Ceisio mantoli'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn
- Cynnal y 3 lefel o wytnwch trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:

    1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
    2. Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd gan gynnwys y Gronfa Digwyddiadau Mawr
    3. Cronfa Gyffredinol rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net

**Rheoli Risg – Fframwaith Rheolaeth Ariannol**

- Cynnal fframwaith rheolaeth ariannol sy'n allweddol i gynnal safonau gweinyddu cyllid a stiwardiaeth ariannol effeithiol. Cyflawnir hyn drwy'r canlynol:

  Cadw at reolau a rheoliadau statudol
  Cod Ymarfer Rheoli Arian y Swyddfa Gartref
  Cod Llywodraethu Corfforaethol
  Nodiadau polisïau a gweithdrefnau
  Rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog
  Polisi Rheoli'r Trysorlys a chadw at y Cod Darbodus
  Gweithredu argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol
  Rheoli risg
  Codau ymddygiad proffesiynol

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau a symud tuag at brosesu electronig llawn

- Alinio cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda'r rheolaeth neu'r dylanwad rheoli priodol

- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir a chyfredol ar gael er mwyn gallu ei defnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Atodiad B**

## Cyllideb Refeniw 2018-19 i 2023-24

| | Gwariant | Cyllideb Flynyddol 2018-19 £000 | +Gost. 2019-20 £000 | Cyllideb Flynyddol 2019-20 £000 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 £000 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 £000 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 £000 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflog Swyddogion Heddlu | 74,850 | 5,479 | 80,328 | 82,232 | 84,008 | 86,056 | 88,275 |
| 2 | Cyflog Staff yr Heddlu | 44,470 | 1,443 | 45,913 | 46,816 | 47,736 | 48,675 | 49,633 |
| 3 | Goramser Swyddogion Heddlu | 2,034 | 41 | 2,075 | 2,116 | 2,159 | 2,202 | 2,246 |
| 4 | Goramser Staff yr Heddlu | 421 | 9 | 430 | 438 | 447 | 456 | 465 |
| 5 | Lwfansau | 1,487 | -120 | 1,367 | 1,357 | 1,348 | 1,339 | 1,330 |
| 6 | Hyfforddiant | 680 | 44 | 724 | 738 | 753 | 768 | 783 |
| 7 | Gweithwyr Eraill | 695 | -136 | 559 | 571 | 582 | 594 | 605 |
| 8 | Taliadau Pensiwn Uniongyrchol | 3,227 | 78 | 3,305 | 3,384 | 3,465 | 3,548 | 3,634 |
| 9 | Costau Ynni | 1,049 | 371 | 1,420 | 1,463 | 1,507 | 1,552 | 1,599 |
| 10 | Costau Rhedeg Adeiladau | 6,720 | -277 | 6,443 | 6,572 | 6,703 | 6,837 | 6,974 |
| 11 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau | 564 | -28 | 536 | 546 | 557 | 568 | 580 |
| 12 | Costau Rhedeg Cerbydau | 1,936 | 5 | 1,941 | 1,991 | 2,042 | 2,095 | 2,150 |
| 13 | Lwfansau Ceir a Theithio | 760 | 0 | 760 | 775 | 790 | 806 | 822 |
| 14 | Uned Awyr | 589 | 0 | 589 | 601 | 613 | 626 | 638 |
| 15 | Offer | 844 | 156 | 1,000 | 1,020 | 1,040 | 1,061 | 1,082 |
| 16 | Dillad a Gwisgoedd | 484 | -17 | 467 | 477 | 486 | 496 | 506 |
| 17 | Argraffu a Nwyddau Swyddfa | 424 | 0 | 424 | 433 | 441 | 450 | 459 |
| 18 | TG a Chyfathrebu | 9,838 | 916 | 10,754 | 10,969 | 11,188 | 11,412 | 11,640 |
| 19 | Cynhaliaeth | 336 | 15 | 351 | 358 | 365 | 372 | 380 |
| 20 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 2,507 | 31 | 2,538 | 2,572 | 2,606 | 2,641 | 2,676 |
| 21 | Cydweithio a Phartneriaethau | 5,140 | 292 | 5,432 | 5,541 | 5,651 | 5,764 | 5,880 |
| 22 | Fforensig | 740 | 0 | 740 | 754 | 769 | 785 | 801 |
| 23 | Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf | 1,864 | 743 | 2,607 | 2,032 | 2,040 | 2,040 | 2,040 |
| 24 | Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| 25 | Chwyddiant ac Arian at Raid | 400 | 60 | 460 | 460 | 460 | 460 | 460 |
| 26 | Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,467 | 100 | 1,567 | 1,467 | 1,467 | 1,467 | 1,467 |
| | **Gwariant Gros** | **163,926** | **9,205** | **173,130** | **176,083** | **179,623** | **183,470** | **187,525** |

| | Incwm | Cyllideb Flynyddol 2018-19 £000 | +Gost. 2019-20 £000 | Cyllideb Flynyddol 2019-20 £000 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 £000 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 £000 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 £000 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Secondiadau** | -5,167 | 157 | -5,010 | -5,010 | -5,010 | -5,010 | -5,010 |
| 28 | **Llog ar Falansau** | -150 | 50 | -100 | -100 | -100 | -100 | -100 |
| 29 | **Incwm** | -3,270 | 236 | -3,034 | -3,034 | -3,034 | -3,034 | -3,034 |
| 30 | **Grantiau Penodol** | -8,993 | -1,773 | -10,766 | -9,131 | -9,079 | -9,026 | -8,974 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-17,580** | **-1,330** | **-18,910** | **-17,275** | **-17,223** | **-17,170** | **-17,118** |
| 31 | **Cronfa wrth Gefn y Cynllun Ariannu Preifat** | 121 | -77 | 44 | -71 | -188 | -306 | -425 |
| | **Gwariant Net** | **146,467** | **7,798** | **154,264** | **158,737** | **162,212** | **165,994** | **169,982** |
| 32 | Cyfanswm Grantiau | -71,728 | -1,506 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 | -73,234 |
| 33 | Praesept | -74,739 | -6,291 | -81,030 | -84,738 | -88,462 | -92,206 | -95,968 |
| | **Cyllid** | **-146,467** | **-7,797** | **-154,264** | **-157,972** | **-161,696** | **-165,440** | **-169,202** |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 765 | -249 | 38 | 225 |
| | **ACHOS SYLFAENOL - Cronnol** | **0** | **0** | **0** | **765** | **516** | **554** | **780** |
| | **Pwysau Costau Ychwanegol yn y Dyfodol** | | | | | | | |
| | **a. RhGG** | | | | | | | |
| | Adolygiad Ymchwiliol | | | | -25 | -25 | -25 | -25 |
| | Ymateb | | | | 428 | 428 | 428 | 428 |
| | b. Fframwaith Cymwysterau | | | | | | | |
| | Addysg yr Heddlu | | | | 779 | 1,435 | 1,647 | 1,671 |
| | c. Cyllid Cyfalaf | | | | 400 | 400 | 400 | 400 |
| | d. TG – Rhaglen Alluogi Genedlaethol | | | | 305 | 305 | 305 | 305 |
| | Cynnydd blynyddol | | | | 1,887 | 656 | 213 | 24 |
| | **Cyfanswm Cronnol** | | | | **1,887** | **2,543** | **2,756** | **2,779** |
| | **Cynllun arbedion y dyfodol** | | | | | | | |
| | **RhGG/Uned Galw a Gallu** | | | | | | | |
| | Plismona Cymdogaethau | | | | 1,493 | 0 | 0 | 0 |
| | Y ddalfa | | | | 82 | 82 | 0 | 0 |
| | Rheoli digwyddiadau | | | | 222 | 0 | 0 | 0 |
| | Adolygiadau Digidol a'r Uned Galw a Gallu | | | | 500 | 250 | 250 | 250 |
| | **Meysydd adolygu eraill** | | | | | | | |
| | Contractau TG | | | | 75 | 75 | 0 | 0 |
| | Ystadau | | | | 200 | 0 | 0 | 0 |
| | Caffael | | | | 80 | 0 | 0 | 0 |
| | Cynllun Arbedion Blynyddol | | | | 2,653 | 407 | 250 | 250 |
| | **Arbedion Cronnol** | | | | **2,653** | **3,059** | **3,309** | **3,559** |
| | Cyfanswm Net | | | | 0 | **0** | **0** | **0** |

**Atodiad C**

## Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2019-20

| | £'000 |
|---|---|
| **Y RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT FANWL** | **2019-20** |
| **Rhaglen Ystadau** | |
| Gwelliannau cynaliadwyedd | 100 |
| Adolygiad Ystadau - Gorsaf Heddlu Pwllheli | 980 |
| Adolygiad Ystadau – Adleoli/Cydleoli/Gwagio | 435 |
| | |
| **Cerbydau ac offer arall** | |
| Rhaglen Amnewid Cerbydau | 1,300 |
| | |
| **Offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** | |
| Amnewid cyfrifiaduron pen-desg | 900 |
| Isadeiledd y Rhaglen Genedlaethol Galluogi/SailPoint/dolenni'r we | 471 |
| Meddalwedd cysylltedd | 85 |
| Uwchraddiadau WiFi | 500 |
| Sain-weledol gweithlu digidol | 200 |
| Sengl ar-lein gartref | 40 |
| Diwedd oes – amryw systemau | 1,380 |
| Camerâu corff | 400 |
| | |
| **Cyfanswm** | **6,791** |

| | |
|---|---|
| **CYLLID:** | |
| Grant Cyffredinol y Swyddfa Gartref | 462 |
| Cyfraniadau Refeniw | 1,243 |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | 2,528 |
| Derbyniadau cyfalaf | 243 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 1,415 |
| Benthyca ar gyfer Rhaglen Amnewid Offer | 900 |
| | |
| **Cyfanswm** | **6,791** |

**CRYNODEB O RAGLEN GYFALAF 2019-20 I 2024-25**

| | £'000 2019-20 | £'000 2020-21 | £'000 2021-22 | £'000 2022-23 | £'000 2023-24 | £'000 2024-25 | £'000 CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWARIANT:** | | | | | | | |
| Rhaglen Ystadau | 1,515 | 3,216 | 3,895 | 3,379 | 3,791 | 1,333 | 17,129 |
| Cerbydau ac offer arall | 1,300 | 1,300 | 1,855 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 8,355 |
| Offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 3,976 | 460 | 1,845 | 300 | 760 | 300 | 7,641 |
| | **6,791** | **4,976** | **7,595** | **4,979** | **5,851** | **2,933** | **33,125** |
| **CYLLID:** | | | | | | | |
| Grant Cyffredinol y Swyddfa Gartref | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 462 | 2,772 |
| Cyfraniadau Refeniw | 1,243 | 1,243 | 1,116 | 838 | 838 | 838 | 6,116 |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd | 2,528 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,528 |
| Derbyniadau cyfalaf | 243 | 55 | 277 | 0 | 650 | 375 | 1,600 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 1,415 | 3,216 | 3,895 | 3,379 | 3,141 | 958 | 16,004 |
| Benthyca ar gyfer Rhaglen Amnewid Offer | 900 | 0 | 1,845 | 300 | 760 | 300 | 4,105 |
| Cyfanswm | **6,791** | **4,976** | **7,595** | **4,979** | **5,851** | **2,933** | **33,125** |

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

EITEM RHAGLEN 8a

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(yn cynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **28 Ion 2019**<br><br>**25 Maw 2019** | **Diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **28 Ion 2019** | **Praesept Arfaethedig ar gyfer 2019/20** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **25 Maw 2019** | **Amserlen y Cyfarfodydd Arfaethedig ar gyfer 2019/20** | Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu |
| **25 Maw 2019** | **Adolygiad o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd |
| **25 Maw 2019** | **Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl Carl Foulkes** | Prif Gwnstabl Carl Foulkes |
| **EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL – DYDDIADAU I'W CADARNHAU** | | |
| **Meh 2019** | **Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2018/19** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd |
| **Meh 2019** | **Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol<br>(yn cynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Medi 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2019/20** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Medi 2019** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **Medi 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Checkpoint** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Rhag 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Ymyrraeth Gynnar** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Rhag 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Tîm Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **I'w Gadarnhau** | **Adolygu’r Cylch Gorchwyl** | Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd) |